



D
1

N











CALEDFRYN.

“ Nid tawel fydd, ond tywydd,
I wr o, farn gywir fydd.”

Gwaith Caledfryn.

*

"Troai allan bob troellau—dichwaethiad,
A chwithig ffigyrau;
Ac i wawd â'i ergydiau—ef o'i wydd
Yrrai annedwydd goeg addurniadau."

1913.

AB OWEN, LLANUWCHLLYN.

CYHOEDDIR, DRŴS AB OWEN, GAN R. E JONES A'I FRODYR
CONWY.

Rhagymadrodd.



ANWYD William Caledfryn
Williams yn Ninbych, Chwef.
6, 1801; bu farw yn y Groes
Wen, Morgannwg, Mawrth
23, 1869. Ac yno yr hun, ger
hunell Ieuan Gwynedd, gŵr
tebyg iddo.

“Un o blant siomedig-
aethau oedd efe,” ebe ef ei hun,
“o gychwyniad ei ddyddiau.” Yr oedd ei
rieni yn gysurus, ac mewn masnach weu hel-
aeth, ac yr oedd gobaith iddo yntau gael addysg
dda, os nad hawddfyd; ond daeth dyrswch
i'r fasnach, a gorfod iddo ddibynnu arno ei
hun. Buasai'n faban gwan, cafodd fagwr-
aeth dyner; ond gorfod iddo ymdafu i ganol
dynion prysur ac ymdrechu i ennill ei damaid
fel ereill. Cafodd fynd i Goleg Rotherham,
ac yr oedd wrth ei fodd yno; ond yr oedd hen
anwyd gawsai wrth groesi Mynydd Hiraethog
wedi ymaflyd mor dynn ynddo fel na fedrodd
aros ond am ryw bedwar mis. Cafodd alwadau
i laweroedd o leoedd, ond siaradai mor onest a
llym fel na fu'n hapus yn unlle dan ddiwedd
ei oes. Yr oedd ei onestrwydd pybyr, ei ffeidd-
dod o bob rhagrith a thwyll, ei ddirmyg at y
gwael a'r ofergoelus, yn ei wneud megis gŵr a
chleddyf yng ngolwg y llaweroedd.

O'i febyd, llenyddda a barddoni, cadw ysgol

a phregethu oedd yn mynd a'i fryd. Yr oedd gan yr Eisteddfod a'i beirdd swyn arbennig iddo.

Yn 1821 ymunodd â'r beirdd yn Eisteddfod Caernarfon, yr oedd wedi bod yn ysgrifennu clod emynnau Maes-y-Plwm yn *Seven Gomer*. Yn 1822 cafodd wobr am englynion yn Eisteddfod Aberhonddu. Yr oedd yn athro yn yr Ysgol Sul, ac yr oedd Roger Edwards yn ei ddisbarth yn Ninbych.

Mae'n debyg nad oedd ei duedd lenyddol yn hollol wrth fodd Methodistiaid Dyffryn Clwyd, ac am rai blynyddoedd bu'n cloffi rhwng dau enwad; ond yn 1826, gan dybio fod mwy o ryddid ymysg yr Anibynwyr, ymunodd â hwy ar anogaeth daer ei hen athraw, y Parch. Arthur Jones o Fangor.

Yn 1826 dechreuodd bregethu; bu'n weinidog llafurus a hyawdl ar hyd ei oes. Ar gais Williams o'r Wern, dechreuodd yn Llannerch y Medd, yn 1829, am gyflog o dri a chwech yr wythnos. Yn 1831 symudodd i Gaernarfon, a bu yno hyd 1848. Yma, fel llenor ac efenglyydd a gwleidyddwr, cafodd yrfa egniol ac ystormus. Cafodd ei gam esbonio. Yr oedd ei ryddfrydiaeth eithafol yn tarfu'r Methodistiaid, a chyhuddid ef o ymosod ar John Elias. Yr oedd y Diwygiad Dirwestol yn ysgubo popeth o'i flaen, cafodd yntau lawer o amhoblogrwydd wrthi wrthod rhoddi ei ryddid i fyny. Er hynny, dylid cofio dau beth,—nid oedd ball ar gariad edmygol Caledfryn at'wyr mawr ei hen enwad; ac ete, ei hun yn ddirwestwr

selog, wnaeth fwyaf o bawb i wneud beirdd, yr Eisteddfod yn sobr.

Yn 1848 symudodd at eglwys fechan yn Aldersgate, yn Llundain, ond buan y tynnodd hiraeth am y mynyddoedd ef adre'n ol. Yn 1850 cymerodd eglwys Llanrwst. Yna aeth i eglwys Beulah, ger Bangor. Yn 1857 derbyniodd alwad, wrthodasai ddwy flynedd ar bymtheg cynt, i hen eglwys y Groes Wen. Yno, o'r diwedd, arosodd a bu'n hapus hyd ddiwedd ei oes. Ni chafodd winllan mor aeddfed o'r blaen, na phraidd mor rywiog a hawddgar; ac yr oedd ystormydd a phrofedigaethau wedi llareiddio llawer ar ei natur benderfynol, boethlyd, a gwrol yntau. Er mai i'w weinidogaeth gref a llym y rhoddai doraeth ei amser, gwnaeth wrhydri mewn llawer cyfeiriad arall.

Yr oedd yn llenor llafurus, ac yn ddadleuydd hyawdl dros ryddid, cyd-raddoldeb, gonest-rwydd, a heddwch. Ysgrifennodd i bron bob cyhoeddiad. Bu'n golygu y *Sylwedydd*, y *Gwron*, *Cylchgrawn Rhyddid*, yr *Amaethydd*, y *Tywysog*, y *Seren Ogleddol*, ac adran hanesiol y *Dysgedydd*. Cyhoeddodd draethodau a llawlyfrau, golygodd weithiau beirdd ac emynwyr; bu'n athro llenyddol i'w oes.

Bu'n fardd ar hyd ei oes hefyd. Yn 1831 cafodd dlws o law'r Dywysoges Victoria yn Eisteddfod Beaumaris am ei awdl ar "Ddrylliad y *Rothsay Castle*;" yn y Fenni yn 1838 cafodd wobr am ei farwnad am Gomer a Ieuan Ddu; yn Rhuddlan yn 1850 efe ganasai oreu er cof am Wallter Mechain. Y mae ei farddoniaeth yn oleu a chywir; ond llenor yn canu

yw. Mae ambell linell hapus wedi dod yn rhan o feddwl gwlad; ond yr oedd yn rymusach fel athro beirdd nag fel bardd ei hun.

Yr oedd yn un o'r beirniaid mwyaf welodd Cymru. Yr oedd yn llai ei gydymdeimlad na beirniaid mawr ereill Cymru, rhai fel Gwallter Mechain neu Eben Fardd. Ond prin y bu ei debyg o flaen tyrfa. Yr oedd ei ymddangosiad urddasol, ei berson hardd, ei areithyddiaeth bur, ei allu i fynegi condemniad neu ddirmyg, yn ei wneud yn allu ar y llwyfan. Cymerer ei feirniadaeth yn Aberystwyth fel esiampl. Disgwyliai'r dorf wrth ei wefusau am oriau tra beirniadau'n fanwl, a thra'r adroddai'r farwnad fuddugol ar ei hyd. A oes un beirniad heddyw allai wneud hyn, ac a oes torf wedi ei gadael yng Nghymru a adawai iddo?

Tybiaf fod lle i ofni yr anghofir gwaith mawr oes Caledfryn, a gobeithiaf y tynn y gyfrol fechan hon sylw at ei lafur a'i athrylith eto. Wrth gyflwyno tysteb iddo yng Nghaernarfon, dywedodd Emrys,—“Y mae dwelaw ein Brenhines hoff wedi bod yn rhoddi llawryf enwog-rwydd ar eich pen; ond yr ydym yn hyderu y bydd i chwi dderbyn, o law uwch, wob ardderchocach yn y dydd diweddaf, yn dywedyd, ‘Da was da a ffyddlawn.’” Ac na fydded i'w genedl, y genedl garodd, y genedl y gwnaeth gymaint dros ei rhyddid a'i meddwl, ac am dâ' mor fychan, anghofio rhoddi coron serch ac edmygedd iddo.


OWEN M. EDWARDS.

Cynhwysiad.

| | Tudal. |
|--|--------|
| Awenydd..... | 9 |
| Bywyd dyn..... | 34 |
| Cawrdaf..... | 87 |
| Cymry, Cymro, Cymraeg..... | 5 |
| Christmas Evans..... | 49 |
| D. Rhys Stephen..... | 39 |
| Diferynnau yr Ysgrifell | 35 |
| Dinas Mawddwy | 56 |
| DRYLLIAD Y ROTHSAY CASTLE | 17 |
| GOMER A IEUAN DDU..... | 97 |
| Griffith Hughes, Groes Wen | 56 |
| GWALLTER MECHAIN | 41 |
| IEUAN GWYNEDD— | |
| I. Ei Briodasgerdd | 89 |
| II. Ei Farwnad | 9 |
| John Elias..... | 1 |
| Llyfr Dafydd Ionawr..... | 14 |
| Pedwar o werth, 1832 | 39 |
| Pob peth yn llefaru am Dduw | 11 |
| Robert ab Gwilym Ddu..... | 93 |
| Ti Gymro wado'th iaith | 13 |
| Unig ferch R. ab Gwilym Ddu..... | 88 |
| Y disgyniad ar Sinai | |
| Y FEIRNIADAETH ar bryddestau côf am Ieuan Gwynedd, Morgan Howel, D. Rhys Stephen a Thegid..... | 57 |
| Y Gwanwyn..... | 33 |
| Yr Aderyn Symudol..... | 94 |
| Y ddeilen ddiweddfaf..... | 111 |

Y Darluniau.


- CALEDFRYN..... *Wyneb-ddarlun.*
Oddiwrth wawl-arlun gan John Thomas.
"Gwirionedd rydd ddirgryniad,
Heb gledd, i fflugiant pob gwlad."
- Yn Nyffryn Clwyd..... *I wynebu tud. 9*
"Pan yn faban gwan gynnuau,—was dinerth,
Cest hon a'i theg eiriau."
- Porth Dafarch..... *I wynebu tud. 17*
"Llyfn iawn ydyw heddyw, heb
Arw donn ar hyd ei wyneb."
- Y Gwanwyn..... *I wynebu tud. 33*
"Ac O, mor hardd a-fyddai'r byd
Pe bai o hyd yn Wanwyn."
- Glan Môr Môn..... *I wynebu tud. 48*
"Heb baid, ei lygald yn llaith,
Am eu hardal, drwy'u mordaith."
- Oddiar y Lan..... *I wynebu tud. 64*
"Wyn fôr, rhoes i niferi
Wely llaith yn mol y lli."
- Eryri..... *I wynebu tud. 89*
"Dringo'r Wyddfa, gopa gwyn,
A chware ar ei choryn."
- Porth Castell Beaumaris..... *I wynebu tud. 97*
Lle cafodd Caledfryn gader yr Eisteddfod
am awdl "Drylliad y Rothsay Castle."
- Y mae y rhai hyn oll wedi eu tynnu oddiwrth ddarluniau
gan S. MAURICE JONES, Caernarfon.





Y N NYFFRYN CLWYD.

“Disgwylia fod gwlad Prydain yn wlad ryddf,
Pan dery 'i droed ar hon mai rhydd a fyddl.”



CALEDFRYN.

AWENYDD.

AWENYDD a adwaenir—wrth ei gwedd,
Ac wrth y gwaith wnelir ;
Nid yw pob peth a blethir,
O'r un waed a'r awen wir.

Nid rhydd awenydd anian—ydyw swm
Cydseiniaid yn clecian ;
O dinc i dinc, yn rhincian,
Mae oer gerdd rhigymwr gwan.

Llwyd wau rhimynau meinion—dienaidd,
Dyna wna ynfydion ;
Awen uchel, annichon
I'r dyn hurt wir adwaen hon.

E ddyrydd ansoddeiriau,—heb ochel,
Nes beichio brawddegau ;
Swm a gwynt, yw'r cwbl sy'n gwau,
Yn ei hyllion linellau.

Gwehilion beirdd, gwaelion byd,—ni wyddant
Rinweddau'r gelfyddyd ;
Ond llarpiant, hacrant o hyd,
Wyneb awen a'i bywyd.

Toraeth ar doraeth dyrrant—o eiriau,
Twrw mawr a gadwant ;
Dwyn nerth ein iaith dan warth wnant ;
Beirdd o awen bardduant.

Os gallant ddyfeisio gwallau—gofrestr
 Neu gyfrif mân feiau,
 Rhodreswyr, rhigymwyr gau,
 Ni ddaliant ar feddyliau.

Plisgyn yr englyn a rydd—ddifyrrol
 Wledd fawr i goeg brydydd;
 Ni wiu son, nad hynny sydd,
 Wrth hwn, yn nerth awenydd.

Rhoi meddwl a grym iddo—yn ei waith,
 Ni ŵyr ddim am dano;
 Byw ar waeledd a brolio,
 Efo thwyll wna ei fath o.

Dwl a dyrus dlawd eiriau—ag arnynt
 Glogyrnawg gymalau,
 Dyna geir i gyd yn gwau
 Yn marddoniaeth myrddiynau.

Mae ereill am ymyrraeth—â'r awen
 Heb reol na mydraeth,
 Ac am rwygo Cymreigiaeth,
 A blin droi y cwbl yn draeth.

Heddyw'n mysq prydyddion mân—y bryddest
 A'r breuddwyd yw'r cyfan;
 Caniad heb deimlad, heb dân,—
 Rimynir heb rym anian.

Ceir geiriau, ddegau ddigon,—yn wallus,
 A llinellau lleicion;
 Yn dynwarded yn wirion
 Waith y Sais—mae'n aethus son.

Dynwardiad dianrhydedd—yw oll,
 O'i waith, heb ei fawredd;

Harddwch ia—pruddach ei wedd
Anghenus na'r gynganedd.

Yn nwyllaw meddwon halog—bu'r awen
Dan ei briw'n flinderog ;
Gan wyr llaith o ganwyr llog,
A ganent am y geiniog.

Difyrrwch uwch dyferyn—o ddioid
Oedd awen bolerddyn ;
A chas aeth o achos hyn
I deilwng fardd ei dilyn.

Awenyddion rhinweddol—yw rhif fawr
O feirdd sy'n bresennol.
Bolerwyr, glerwyr y glol,
I daw sy'n cael eu deol.

POB PETH YN LLEFARU AM DDUW.

28 I syllais ar y graig
Mewn eira byth sy'n nghudd ;
Ac ar y blodyn flws
Wrth odre hon y sydd ;
A'r clogwyn aruchel, a'r isel flodeuyn,
Eill dau a ddadguddiant Hollallu diderfyn.
Fe glywais ru y môr
A'i dwrf yn codi braw ;
A'r ffrwd yn araf iawn
Yn mynd i'w wely draw ;
A'r môr mawr a'r ffrydlif ynghyd a fynegant
Am Dduw eu Creawdwr o hyd tra'r ymroliant.
Gofynnais i'r haul claer
Dywynnai ganol dydd,

A'r ser filmyrdd y nos
 Yn gloewi 'r nen y sydd ;
 A'r ser oll a'r haulwen y wers yma ddysgant,
 Mai gan Dduw eu golau i gyd oll dderbyn-
 iant.

Fe welais y pryf bach
 Yn mynd drwy dom a llaid ;
 A dyn ger bron y Nef
 Yn codi 'n syth a gaid ;
 Ac eto y pryfyn a'r dyn sydd yn gwisgo
 Ol llaw eu Creawdydd, efe fu'n eu llunio.
 Fe dreiddiais galon dyn,
 Teimladau 'r enaid drud,
 A chefais ateb gwir
 I'r gofyniadau i gyd ;
 Y rhai mewn acenion difrifol ddywedant
 Mai o Dduw y daethant, mai at Dduw dych-
 welant.

TI GYMRO WADO'TH IAITH.

(Ar warth y Cymro a gywilyddia arddel iaith ei Wlad.)

TI, Gymro, wado'th iaith odiaeth,—ydwyf
 Yn nôd o ddifriaeth ;
 Nid oes wr o gyflwr gwaeth
 I'w weled, mewn un dalaeth.
 Aneisor druenuswaith—yw gwadu
 Ein gwiwdeg Omeriaith ;
 Ow, bwrw i lawr bybyriaith
 Lân oll, am eulun o iaith !
 Er anwar lid estroniaid,—a'u gwaethaf
 Fygythion melldigaid ;

Yn hyf, safai'n hynafiaid,
Hoff lu, hyd angau o'i phlaid.

Os oes rhai o'r Saeson—yn ei gwadu,
Fe gwyd llu o'i meibion,
Hyd ein tir, a gwadant hon,
Yn waeth na'r rhein'y, weithion !

Drwy'r gwledydd, beunydd, heb ball,—er's
oesau,

Mae pob rhyw Sais doethgall
Yn parchu'n hiaith geinfaith, gall,
Diau, cyn dod i'w deall.

Er rhwystrau, os yw'r estron—yn hoffi

Ei hamddiffyn, weithion,
Beunydd, cywilydd calon
Ydyw i'w hil wadu hon.

Ni wŷr hwn am fawr o'i rhiniau,—nag am

Ei gemawg blethiadau ;
Ond cest ti, 'n wir, hir fwynhau
Rhagorol berdra 'i geiriau.

Pan yn faban gwan, gynnuau,—was dinerth

Cest hon a'i theg eiriau
I ddweyd i'th fam, glodfam glau,
Erioed, am dorri'th reidiau.

Y gadarn Gymraeg odiaeth,—O, arddel

Mewn urdd a dyrchafiaeth,
Na ddod hon, iaith firwythlon, ffraeth,
Heibio, er mwyn dy fabiaeth !

Os oes, yn ein hoes gywrain ni,—alon

Am weled ei cholli ;
Gwrolion Frython, drwy fri,
A sai'n addas i'w noddî.

Gwêl, agwrdd gampwyr golygus,—hoff lu,
 Sydd o'i phlaid yn drefnus ;
 A bratiog gabldraith Brutus
 Afêr, a chwelir fel us.

Herwydd, mae'r dydd ar wawrio—ar ein hoes
 Na cheir neb i'w bleidio ;
 Yna'i waith a'i enw o,
 Wrthwingwr, syrth i ango'.

LLYFR DAFYDD IONAWR.

Ⓢ Ionawr a roes inni—yn Meirion
 Un mawr i'w gofnodi,
 Ei loew ddawn ni welodd hi,
 Na Ionawr na phenwyni.

Newydd oedd, ni wywodd hi,—ni wywai
 E'n ei swydd ati,
 Daliai 'i nerth, odlai i ni
 Yn ei henaint yn heini.

Dilwgr ydoedd pob dalen—a lwybrodd
 Ei oleubryd awen ;
 Esgyn i fysg cân nef wen
 Yr ydoedd ar ei haden.

Ei ddihalog feddyliau—a nofient
 Mewn nefol syniadau ;
 Tân ei gerdd, at destun gau,
 Ni roe Ionawr aurenau.

Ei daran ef drwy y nen—sy eglur,
 Sigla y ffurfafen ;

Cywyddau Dafydd Ionawr 15

Llewyrch y byllt oll uwch ben,
Rai ebrwydd, daniai'r wybren.*

Twrf annwn dros y terfynau,—damchwa
Yn dymchwel mynyddau ;
Rhu hydrwyllt y rhaeadrau,
A moroedd yn ymryddhau ;

I fwrw ei helfen farwol—yn ddylif
Na ddaliai'r creig oesol,
I lenwi yn olynol,
A barn Duw, bob bryn a dôl ;

Hyn oll a geir yn ei waith,—a chriau
Tra chroewon anobaith,
Rhai ddaliwyd gan oer ddylaith,
Dan lid a nerth y donn laith.

Dewi a welodd y dyli—a'i rym
Ei rwysg mawr yn gefnlli',
A'i feirwon yn niferi,
Oer a llwm ar warr y lli'.

Noah welodd yn hwylio—ar y dŵr
Uwchlaw'r donn a'i chyffro,
A Ior Nef i'w arwain o
Yn nawdd a tharian iddo.

* Golygir yn yr englyn hwn, a'r rhai canlynol, Cywydd y Daran, a Chywydd y Diluw.

JOHN ELIAS.

A'i law, a'i ddull rhyw luoedd—a swynai,
 Nes ennill tyrfaoedd ;
 Tra o'i flaen, tarawai'i floedd
 Trwy eneidiau, taran ydoedd.


Gyrrai y mellt â grym mawr—i wibio,
 Gau obaith wnai'n llwydwawr ;
 Twyll darfai, cestyll dirfawr,
 Arwr llym, fwriai i'r llawr.

Am ei olwg, a'i ymweliad—â sir,
 Rhedai'r son drwy deirgwlad ;
 Yn ei enw eneniad
 Swynol oedd—synnai y wlad.

Yntau a'i enaid yn taniaw—welid,
 A'i olwg mewn cyffraw,
 Troai fe'n brudd trwy ofn a braw,
 Annuwionion i wylaw.

Dygai werth gwaed bendigaid—ei Brynnwr,
 Ger bron euog enaid ;
 Ato i'w lys, o'r tew laid,
 Tan nawdd Ion tynnodd weiniaid.

Mor dawel y mae'r diwedd—i'r golwg ;
 Mor gul ydyw'r annedd ;
 Rhedlif y mawr hyawdledd
 Synnai y byd sy'n y bedd.



PORTH DAFARCH.
"Wyllt wener hallt ei wanedg,
Llawr o dwyll yw ei wên deg"

DRYLLIAD Y "ROTHSAY CASTLE."

Awdl ar ddrylliad yr agerlong *Rothsay Castle*, gerllaw Beaumaris, Awst 17eg, 1831.

WYLLT wênwr halnt ei waneg,
 Llawn o dwyll yw ei wên deg ;
 Llyfn iawn ydyw, heddyw, heb
 Arw donn ar hyd ei wyneb ;
 Y donn flin, erwin, orwyllt,
 Effro'i naws, gyffroai'n wyllt,
 Nes ydoedd yn arswydaw
 Pob bron, llenwi pawb â braw,
 Sy heddyw, mewn naws addien,
 Yn lle cyffro'n gwisgo gwên ;—
 Och ! ffalsder, digter y donn,
 A'i dinistr ar feib dynion.

O ! 'r waedd oedd ddoe, a'r weddi,—o ganol
 Y gwynwawr groch weilgi ;
 Wyn fôr, rhoes i niferi,
 Wely llaith, yn mol y lli !

Llon oeddynt, tybynt gael taith,
 A mwyniant teg am unwaith ;
 A gweld y llestri yn gwau,
 Hyd wyneb gwyrddion donnau,
 Heb ofni gwynt, heb ofn gwg,
 Na gwaelod môr na'i gilwg ;
 Cael iach daith, gwibdaith, deg wedd,
 Drwy ganol rhandir Gwynedd,
 I ganfod teg wynfyd hon,
 A'i glwyswawr fryniau gleision :
 Tynnu anadl, tan wenu,
 Heb flinder neu dosder du,
 Mewn iachus, haelionus le ;

Awyr bur hwyr a bore ;
 A chael cyn eu dychweliad,
 Weld ceinion glwysion ein gwlad.

A byw'n llawen ar ben bwrdd ;
 Mordeithio neu rodio'r ardd ;
 Taith ddestl, heb dymestl, heb dwrdd,
 I fyny hyd Fenai hardd.

Neu gerdded drwy'r coed gwyrddion.
 Lwyni heirdd, ar lannau hon,
 I wrando ar gywreinddeg
 Gerdd lon y cantorion teg,
 Sy'n plethawl, doniawl gyd wau
 Yng nghanol y canghennau ;
 A rhodio llawer adeg,
 Drwy'r Morfa,* rodianfa deg.

Lle i dawel ymneillduo—o boen
 Twrf y byd a'i gyffro ;
 Yr harddaf, hyfrydaf fro
 Is haulwen, i'w phreswyllo.

Niferi fydd o fawrion,
 Yn llu, yn tynnu at hon.

Pigion enwog, goludog y gwledydd,
 Erioed, a lanwant yr ardal lonydd ;
 Yno cyd-wleddant,—yfant yn ufudd
 Awyr ei Menai o'r môr a'r mynydd ;
 Ymlwybrant, rhodiant, yn rhydd—drwy'r
 wlad dda,

Yn iach eu gwala, yn mreichiau'u gilydd.

Llawer gwr fy'n llwyr gurio—yn ei bryd,
 Nes oedd bron diffygio,

* Beaumaris.

Ddaeth i hon, hvyrydlon fro,
 A rhôdd iachâd llwyr iddo.
 Rhydd ei thiroedd, lleoedd llon,
 Deg olwg gwyd y galon ;
 Hyd drumau hon, ceir tremyn
 Ar siriawl wawr Seiriol wyn,
 A Gogarth fawr, freinfawr frig,
 Graig o adail grogedig ;
 Y cydiol greig fel cadwyn
 Gan y wlad o Gonwy i Leyn.

Eu bannawg, uchel bennau—yn saethu
 Yn syth i'r cymylau ;—
 Y mae yn werth in gael mwyhau—gwi-
 daith,
 I lwybro unwaith hyd ael ei bryniau
 Er gweled harddfawr golofn,
 Dra destl ein gwladwr di ofn ;
 Drych rydd edrych ar hon,
 A golwg draidd i galon ;

Darluniad o'r elyniaeth—trywel oedd
 Yn Waterloo ddiffaeth ;
 A'r distryw, ddistryw na ddaeth
 Un o'i ail, ar ddynoliaeth.

Cofir trwm loesau, rhwygiadau ergydion,
 Mwg a niwl tramawr magnelau trymion :
 Mawrwyh garlamiad y meirch gorlymion ;
 Y drylliad ar fagad o arfogion ;—
 Ac aberth mawr, mawr lew Môn,—cael
 dynnod

Nes torri'i aelod yn nistryw'i alon.

Cestyll rhyfedd Gwynedd gain,
 A'i chaerydd sy dra chywraïn ;—

A'r gadarn Bont grogedig,—i fyned
 Dros Fenai chwyddedig ;
 Heb ofyn dim,—heb ofn dig
 Rhwadwy'r môr berwedig.

Uchelgamp i'r croch weilgi—yw syflyd
 Ei saflawr na'i meini ;
 Deil tra bo mawr, lasfawr li
 Uthr donn, yn rhuthro dani.

Yn lle'r cychod oedd yn bod, a'r badau,
 Y rhai, gan ddyrnod, a rwygai'n ddarnau,
 Wele drosglwyddiad rhad, wrth bob rheidiau,
 O gyrraedd dinistr y garw-wedd donnau,
 A bloeddiog, groch gableddau—porthweision,
 A gwaedd eon eu dieflig weddiau !

A dynion a'u meirch danynt
 Ar garlam, garlam drwy'r gwynt ;
 Nid ofnant y deifr dyfnion ;
 Llonnant, pan y teithiant hon ;
 Degau o gerbydau'r bôn,
 Uwch agwrdd ddyfngrych eigion,

Yn rhedeg yn rhwadwy,—a chroesi
 Echrysawl ryferthwy ;
 O olwg ! a fu olwg fwy
 Nodedig a chlodadwy ?

Mae twrf olwynion chwyrnion a charnau
 Y meirch nerthawl, trinawl, fel taranau ;
 Cywirlym ydynt y carlamiadau
 Geir goruwch dannedd yr egr groch donnau ;
 Danynt, yn y gwynt yn gwau,—drwy ei
 phyrth,
 Wele lu engyrth, yn hwyliaw, o longau.

Y Rothsay Castle 21

Bawb un ddull, mynd bob yn ddau
 Hyd lennydd pysgodlynau ;
 A sylwi ar risialwawr
 Gloew ddwfr glân, a'i wiwlan wawr ;
 Dwr o'i yfed, yr afiach,
 Gwan ei wedd a ddwg yn iach ;—
 Lle mae'r pysg yn cymysg wau,
 Mor lon, mewn amryw luniau.

A gweled, gyda'u gilydd,—ugeiniau
 O agenawg greigydd ;
 A'r rhaeadr ar raeadr rydd,
 Dwrw gwyllt drwy y gelltydd,
 Bistyllia, ffystia'n dra ffrom ;
 Chwyrna wrth edrych arnom ;—
 Cael rhoi gwib hyd grib y graig,
 Iach aelgref, yr uchelgraig ;
 Chwilio'i chau fwngloddiau glân,
 A'i chelloedd yn wych allan ;
 Dringo'r Wyddfa, gopa gwyn,
 A chware ar ei choryn ;
 Lle'r nifwl, gwmwl teg yw,
 Cam i wlad cwmwl ydyw ;
 Ceir yma olygfa lon
 Ar ddirfawr froydd Arfon.

Gwelir o'r cwrr bwygilydd—i lawer
 O luoedd o wledydd ;
 A'r haul mad, ar doriad dydd,
 Yn agoryd ei gaerydd ;
 Ei dêr wynepryd eirian,
 Aur liw, wrth ddringo i'r lan,
 A'i wrid, yn ymlid y nos,
 O'i ddorau yn ddiaros.

Ceir yno deimlo'r gwyn darth,
 Sydd heibiau'n nofiaw mewn nerth;
 Chwalu bydd, drwy'r uchel barth,
 Uwch creigiau, uwch cymau certh.

Rhai ereill oedd am forwrio—o Loegr,
 I'w hen wlad i rodio;
 Yr oeddynt, drwyddynt, am dro—ar frig
 tonn,
 Yn llawn o galon, hawdd gallwn goelio.

Cysuron hen gofion gynt,
 Yn ddiau, 'n maen a ddeuynt.

Oeddynt yn ymawyddu—am weled
 Moelydd hawddgar Cymru;
 Gweld rhiant, gweld ceraint cu,
 A gwyneb pawb yn gwenu.

Cofio'r gwyn ddyffryn a'r ddôl,
 Y llennyrch heirdd meillionol,
 Y fron wech, y glasfryn hardd,
 Lle tyf blodau, fathau fyrdd;
 Y doreithiog, enwog ardd
 Lad ei gwawr, y deildy gwyrdd.

A'r diddan le roed iddynt,
 Ochrawg wedd, i chware gynt,
 Yn rhyddion, cyn cyrhaeddyd
 Tan bwys helyntion y byd;
 Oeddynt yn cofio addysg
 Tad a mam dinam, a'u dysg;

A hallt alar yr holl deulu—y dydd
 Y deddynt o Gymru,
 A'r trymion ofidion fu,
 Trwy'u henaid, yn trywanu.

Cyn rhoi'n olau, amlygiadau,
 O'u bwriadau i fynd o'u brodir,
 A throi, weithion, ar daith eon,
 Trwy y wendon, i estrondir,
 Anhawdd iawn oedd, yn ddinam,
 Dweyd am hyn, wrth dad a mam.

Troi draw, ag wylaw o galon,—yn rhwydd,
 Yr oeddynt ddeigr heilltion ;
 A'u gruddiau teg, lliwdeg, llon,
 Un ffunud a dwy ffynnon.

Fel yr hwyliant, colli tremynt,
 Yno'r oeddynt, arni'n raddol ;
 A chaddug llwyd, gorchuddiol—ar drumau,
 Aeliau ei bryniau, a niwl wybrenol.

O'u golwg hi a giliodd,
 Y niwl tew â'i law a'i todd.

Disgwylient, tybient, gael taith,—a dychwel
 I'w gwlad iachus eilwaith ;—
 Heb baid, eu llygaid yn llaith,
 Am eu hardal, drwy'u mordaith.

Rhoddi eu hyder, yn bur ddioedi,
 Yn yr agerddlong, y nofai'r gwyrddli,
 Ac yna meddwl, meddwl am iddi
 Rwygo 'i wyn gesig, a'u brigau'n gwysi,
 A'u dwyn i'r lan, ar hyd anwar li,—heb
 Ofn trychineb na môr yn trochioni.

Nid oedid,—rhoddid yn rhydd,
 Olew ar ei hechelydd ;
 Ffrystio gwneud corff o eiriasdan,
 A pharotoi 'i hoffer tân.

Yr agerdd yn dyrwygo,—yn bybyr,
 Drwy'i bibell dan ruo,

Poeri'n wyllt o'r pair wnai o,
A chyffrowyllt groch ffrio.

Gwedi, yn nghanol godwrdd,
I bawb ddyfod ar y bwrdd,
Acw chwannog gychwynnynt,
Fawr lu hardd, i'r farwol hynt,
O Lynlleifiad i'r wlad lon,
Diriondeg drwy y wendon.—
Llwyth gwerthfawr o drysawr drud
Anhefelydd,—prif olud :
Heb feddwl, heb feddwl fawr
Am y drom ystorm dramawr,
A'r greulon, annhirion nos
Erwin, oedd yn eu haros.

Yn ddir, ydoedd ei rhodau,—drwy agerdd
Yn dyrwygaw'r tonnau ;
Dyrchodd ei mwg yn dorchau,
Hyd y nen, yn dew dan wau.

Hwythau y peroriaethwyr,
Drwy ainc, rhoddent gainc i'r gwyr ;
Tybient y meiddient a'u mawl,
Yn ei chastell, gorchestawl,
Herio'r môr a'i rym mawrwyllt,
Ac eigion y wendon wyllt ;
Ond Och ! y garw siom du
Ddeuai arnynt i ddyrnu ;
Eu holl obaith ymaith ai,
Fel ia unnos diflannai ;
Y môr frochwyllt, orwyllt wedd,
A'i ddwr yn llawn cynddaredd ;
Twrw a dinistr ei donnau
A'u trem hyll yn cyd-drymhau.

Crychferwai, ymrwygai y mawr eigion,
 Ewynnai 'i aflonydd donnau'n flinion ;
 Unwedd a 'mwriawl fynyddau mawrion,
 Och ! oedd ei grothawg, fawr chwydd hagr,
 weithion ;

Ymluchiai, tafiai pob tonn—hyd y ser,
 Yn eu gorwyllter, eu dagrau heilltion.

E ddeuai eilwaith yn nerthol ddyli,
 O entrych hoewnef, gan wyllt drochioni,
 Nes rhwygo y safngerth, aelgerth weilgi
 Anferthawl, a'i ddreigiawl gynddeiriogi ;
 Y llong yn mherfedd y lli—ymsglodd,
 A tharanodd pob peth ei thrueni.

Duw, arwr y gorddyfnderoedd,
 A'i enwog lais, yn galw oedd,
 Ei filoedd i ryfela ;
 Ni welid pelydr haulwen,
 Y ne'n ddu, bygddu uwch ben ;
 Twrf corwynt, drowynt o draw,
 Yn yr awyr yn rhuaw.

Dan chwiban da'i allan o'i 'stafellau,
 A heriai fydoedd, drwy'i gynhyrifiadau ;
 A Duw a roddodd lacâd i raddau
 I ffrwyn gadwynog y ffyrnig donnau ;
 Rhuthrodd, fe ddyrnodd y ddau—'sglyfactl-
 gar,

Drwy'u bar anwar, nes duo'r wybrennau !

A'r *Rothsay*, hithau ar hynt,
 I dir angau, 'n mynd rhyngynt.

Weithiau i frig dig y donn—y dringai,
 Drwy angawl ymdrechion,
 Wedyn lluchid, hyrddid hon
 I'r gwsgus ferwawg eigion.

Ymroliodd drwy'r môr heli,—ac eilchwyl

Golchai yntau drosti ;
Ail' ydoedd, yn ei ch'ledi,
I flewyn llesg o flaen lli.

Gwibiai'r dyfnor, gefnfor gwyn,
Anfoddog, fel hurt feddwyn ;
E lynai ei holwynion,
Eu tro chwai a dagai'r donn ;
Cryfder yr ager a'i waith,
A'i hoffer yn ddieffaith ;
Hi droe o'i phwynt yn dra phell,
Dan ysgwyd ei hun asgell ;
Yna'n ol i hwn eilwaith,
Yn erbyn y moryn maith,
Nes syrthiai'i lif, gefnllif gwyn,
Erch aruthr ar ei choryn :
Ysigwyd hi, nes agor
Ochrau ei muriau, i'r môr.

Ac e lannwyd calonnau—y dynion

Ag ofn dinistr angau ;
Gweld ei safn anferth, gerth, gau,
Yn agor drwy'r gwanegau !

A'r llong ar y garwfor llaith,
Mynd waelach, waelach eilwaith.

Tra anhawdd dweyd trueni,—neu helynt,

Yr olwg oedd arni ;
Llu'n ubain, llefain, uwch lli
Rhyfeddol, bron ar foddi.

Ac ereill yno'n gorwedd—yn gleifion,

Mewn gwylofus dromwedd,
A'u henaid mewn anhunedd,
Yn wael eu gwawr,—gwelw'u gwedd.

Er i wyr, amryw eiriol,
 Yn daer yn awr am droi'n ol;
 Er gweled drwy argoelion,
 Mai'u lle fyddai dyfrlle'r donn,
 Yn mlaen ae'r llyw mileinig,
 Drwy donnau'r dyfnderau dig.

Treiddio yr oedd bloedd ei gableddau—'r aig,
 Wrth regu'r elfennau;
 Creulon oedd, ei galon gau,
 At enwog Lyw y tonnau!

Ei forwyr, yn llafurio—yn eon,
 Mewn awydd cael glanio,
 A'r môr a'r gwynt, trymwynt tro,
 Anhiriawn yn eu herio;

Baeddent, ymdrechent yn drwm,
 A mawr rwysg y môr a'i rym;
 Toddi mewn cyni, bob cam,
 A phoen dost, heb fyfnu dim:

Y ddryghin fin, aflonydd,
 Wedi dal ar hyd y dydd,
 Nes oedd yr haul yn soddi
 I'w wely llaith,—bol y lli;
 A hwythau, druain, weithion,
 A llef hallt, yn mhell o Fon,
 Ac eirf dinistr, cryf donnau,
 Wynneb certh, yn bywiocâu,
 A llawer, uwch dyfnder du,
 Yn llegach, bron llewygu;
 Y ser, rhag trymder y tro,
 O'u gŵydd, yn llwyr ymguddio;
 Nid ellent, 'nawr, dyallwn,
 Edrych yn yr hagrddrych hwn;

Gweld grym angau llym gerllaw,
Mor aethus yn ymrithiaw.

Dan ysbocio, neidio'n wyllt,
Yn hir, ar y donn orwyllt,

Hwy gyrhaeddent, yn wlybion eu gruddiau,
I le eu dinistr, drwy lu o donnau;
Ymagorodd, gor-ruthrodd dwfn grothau
Y dyfroedd yn gannoedd o agenau;
Gwelid, yn ddigon golau,—ofn bedd llath,
Drwy anobaith, yn duo'r wynebaw.

Ac ar hyn, twrf gerwinawl—a glywid,
Nes oedd glewion nerthawl
Yn syn, mewn dychryn di dawl,
“*Yn y man annymunawl.*”

Y llong ar draethell angau,—yn gerwin
Guro'i hun yn ddrylliau;
Ydoedd ei thrwm ddyrnodiau
Gerwin fel daiargrynfâu.

Gan uban, mewn gwan obaith—yn eu firwst,
Deffroes pawb ar unwaith,
Ond uwch na llef, fonllef faith,
Tair mil, oedd y 'storm eilwaith.

Bwriai y cenllif berw-wyn,—tra uchel,
Ei heillt drochion gorwyn;
Ysgubai, rheibiai'r gwyr hyn,
I aneddau'r annoddyn.

Drymed oedd eu caledi!—O! 'r wylo,
O! 'r olwg oedd arni;
Pwy wna ddrych i edrych i
Hanner y mawr drueni?

Rhai'n och'neidio, rhai'n gweddio,
 Ac yn wylo'n drwm gan alar ;
 Rhai'n gwallgofi, rhai'n ymroddi
 I'w trueni, ddistryw anwar ;

Ereill wyr, mewn rhyw hyll wedd,
 Tynnu'u gwallt yn eu gwylltwedd ;

Rhedent mewn cyffroadau,—i geisio
 Osgoi ias oer angau ;
 A'i eirf hyll, ail ymgryfhau,
 Yn ei antur, wnai yntau.

Yn ei wŷn, gwelai'n honnoid,
 Y paith blwng,—pob peth o'i blaid.

Y nos wedi gorchuddio'r nen,—caddug
 Yn cuddio pob seren,
 A'r rholfawr, anwar elfen,
 A'i bâr yn ffyrnig dros ben.

Anal y llong yn nghanol lli—hyllig
 Yn hollol ddiffoddi ;
 Llfeiriant yn hyll ferwi,
 Rhwng ei chandryll estyll hi.

O le tost ! wele y tân
 Wedi hollawl fynd allan ;
 A'i holwynion yn glynu
 Ar draethfan y Dutchman du ;
 Ac er i'r gwyr oer eu garm,
 Chwilio am y gloch alarm,
 Er fod ei swn hynod hi,
 Garw son, yn llawn gresyni,
 Eto, er rhoddi ateb
 Iddyn' nhwy, ni chlywodd neb :
 O'r diwedd, uwch deifr duon,
 Pallodd dyrnod tafod hon.

Yn awr y gwelir pob argoelion
 Gyda'u gilydd, y gwaeda y galon ;
 O ! pa deimladau, aethau, weithion,
 A feddianna'r fath dorf o ddyinion ;
 Rhai nad ynt, uwch gerwin donn—yn gweled
 Un ymwarded, mwy nag i'r meirwon.

Dychryn enaid sy'n dechreu enynnu,
 Yn ei wylltineb, gan erchyll felltenu,
 Drymach, drymach mae angau'n hyll-dremu
 Yn eu hwyneb,—a'r môr yn ewynnu,
 A dannedd hallt y donn ddu—'nawr ydynt,
 Oll am danynt yn erchyll ymdynnu.

Y tadau tirion, trymion yn tremu
 Ar eu haneisor ddinistr yn nesu ;
 Ymwylltient, a cheisient ymlochesu,
 Ow anhap hyllig !—pob peth yn pallu ;
 Y ne'n ddwl, pob man yn ddu,—a'r halltfor
 Garw yn agor dan ysgyrnygu.

Y fam druan a'i bychan yn beichio,
 Yn ei alaeth, a hithau yn wylo,
 Heb wybod, ar yr hynod awr honno,
 O anedwyddwch, beth i'w wneud iddo ;
 Er i eglur ddeigr dreiglo—ar ei grudd,
 I angau diludd aeth rhwng ei dwylo.

O ! fôr cuchiog, gwrando gri,
 Nodda un newydd eni,
 Rho wiwfad estyniad dydd
 I'r hwn sydd bron a soddi.

Eu llwyr anedwydd, erchyll oernadau
 A dreiddient, ac a rwygent y creigiau ;
 Ond sw'n y ddryghin erwin am oriau,
 Och ! yno, weithion, oedd uwch na hwythau ;

Y Rothsay Castle 31

Er eu llafur a'u llefau,—eu gwatwar
A wnai'r du, anwar, ddwfn fôr a'i donnau.

Wele rai, gan alar hallt,
Yn ymrwygo, 'n wallgo' wyllt,
Eu llygaid yn danbaid oll,
Troent, ymwibient fel melLt.

Ereill yn gallu ymdyrru'n dirion
I alw ar enw eu Duw, lywiwr union ;
Yn Ior gafaelent, gan fwrw'u gofalon
Ar eu Ner agwrdd sy'n ffrwyno'r eigion :
Ereill yn suddo'n oerion—mewn trymder,
A hallt flinder i wyllt fol y wendon.

Rhai oedd yn serchog, galonnog lynu
Yn eu gilydd, er ymddiogelu,
Hyn ni chollent er i'r môr erchyllu,
Yn y tywyllwch, tra meddent allu ;
Ond y groch donn, ddigllon ddu,—yn ddi-
baid,
A wasgai'u henaid nes eu gwahanu.

Golchai'r tonnau'r *Rothsay* 'n ddrylliau,
A'u hergydiau trwm, rhwygiadol,
Cipio degau, gyda'r darnau,
Wnae y tonnau annghytunol.

Gwel fabanod mewn dychrynod,
Hwnt i'r gwaelod ânt o'r golwg ;
Er yn wyneb môr a'i wg—rhag eu lladd,
Iddynt hir ymladd, ni ddont i'r amlwg.

Wele fenyw'n ceisio dal i fyny
Yn eigion gwyn drochion, gan ymdrechu,
A nerth anwar y donn ar ei thynnu
I'w choluddion,—Ow ! dacw hi'n ei chladdu;


Ni chaiff ei cheraint tra chu—roi i hon fedd,
Wely oerwedd, nag arno alaru.

Lluoedd ar luoedd â i lawr,
I'r eigionau tra gwynwawr,
Er ceisio neidio'n nwydwyllt,
I frig y donn, wendon, wyllt,
O'u gofid, er cael gafael,
Yn narnau'r llong, wiblong wael,
Er hyn, y môr gerwinol
A'i lawn nerth, a'u tafiai'n ol.

Ond rhai, yn eu hanffawd trwm,
O un galon yn gwlwm ;
Yno daliasant, er eu du loesion,
A'u hynod ddychryndod, uwch oer wendon,
A Rhagluniaeth a'i heurog olwynion,
A'u noddai, a'u dygai'n waredigion ;—
Rhown fawl, yn hyfawl, i'n Hion—am Ei rad,
Orwiw gariad a'i amryw ragorion.

Gair mawr a haeddai gwyr Môn—ereswiw,
A Syr Risiart dirion,
Am eu nawdd—ys hawdd fydd son,
Am danynt tra trem dynion.







Y GWANWYN.

“ Fe glywir tyner lais y gôg
Ar lwyni brigog gwyrddion.”

Y GWANWYN.

WID oes dim ia ar warr y llyn,
 Na rhew ar fryn na mynydd ;
 Blodeuog yw briallu'r fron,
 A gwyrddion ydyw'r coedydd ;
 Datodwyd clo y nant a'r ia,
 Fe dreigla yr afonydd.

Y ddaear sydd yn wych ei gwedd,
 A'i hagwedd yn llawn bywyd ;
 Ei chwysau'n barod sydd i waith
 Ar ol hin laith ac anwyd ;
 Fe ddaeth y Gwanwyn ar ei dro
 I'w deffro a'i dadedfryd.

Er gwywo'i gwedd, a cholli 'i phryd,
 A dwyn ei chlyd fantelloedd,
 Wrth fod mewn llafur trwm dros ddyn
 Bob blwyddyn am ganrifoedd ;
 Mewn gwawr mor newydd ag erioed
 Cadd er ei hoed ail wisgoedd.

Fe'i gwelir, yn y Gwanwyn gwyrdd,
 A myrdd o'i hepil meirwon,
 Yn dod i'r lan, a'u lliw yn iach,
 A'u gruddiau bach yn gochion ;
 A rhai yn wyn, rhai'n wyrdd, rhai'n frith,
 Yn dewfrith hyd ei dwyfron.

Ni fydd na maes na dôl na bryn
 Y Gwanwyn heb friallu,
 A'r rheiny, ar bob dyn a'u gwel,
 Os heibio'r el, yn gwenu ;
 A'r adar mân, ar frigau'r pren,
 Yn llon uwch ben yn canu.

Y gwllith o berl fu'n llechu'r nos
 Yn mynwes y rhosynau,
 Fydd yn ffarwelio'n llwyr yn awr,
 Ar doriad gwawr y borau,
 Gan fynd i'w taith, i'r nef uwch ben,
 Ar amnaid haulwen olau.

Y mae holl natur dan ei hurdd,
 Mae'n wyrdd bob bryn a chlogwyn ;
 Mor brydferth ydyw'r ddôl a'r fron,
 Mae meillion ar y dyffryn ;
 < Ac O, mor hardd a fyddai'r byd
 Pe bai o hyd yn Wanwyn.

Fe glywir tyner lais y gôg,
 Ar lwyni brigog gwyrddion ;
 A thwit, twit, twit, y wennol fwyn,
 Aderyn sy'n dwyn hinon ;
 A llu y goedwig yn gytun
 O un i un mewn calon.

Bydd pawb o'r mwya' i'r lleia' oll,
 Heb goll yn adeiladu ;
 Pob un a'i farn a'i ddull ei hun,
 Heb neb yn ymgyndynnu ;
 Rhai'n uwch, rhai'n is, rhai'n wych, rhai'n
 wael,
 Ond pawb am gael lle i lechu.

 BYWYD DYN.

TEBYG iawn i syrthiad seren,
 Neu fel eryr ar ei aden,
 Neu wawr blagur ar eu dechreu,
 Neu arianaidd wlith y boreu,

*O no brydferth
 heb o hyd*

Neu i wynt gynhyrfa'r dylif,
 Neu'r crychferwad ar y cefnllif
 Yw dyn :—a'r golau a fenthycir
 Iddo, gyll, gan nos fe'i llyncir ;
 Peidia'r gwynt, a sai'r crychferwad,
 Cladda'r Gwanwyn bob blaguriad,
 Sych y gwllith a'r seren gollwyd,
 Yr eryr aeth—a dyn anghofiwyd.

DIFERYNNAU YR YSGRIFELL.

DYN.

RHYW ddyfrglych ar wyneb y donn a gan-
 fyddir ;

BYWYD.

Pelydryn o oleu mewn bedd a ddiffoddir ;

ENWOGRWYDD.

Gwreichionen ddisgleiriol ymhell sy'n tywynnu ;

CYFOETH.

Ffynhonnell pob drygau a gofal sy'n nychu ;

HYFRYDWCH.

Pelydryn o haulwen yn fuan a basia ;

CARIAD.

Boreuffrwd o'i chofio, y dydd a oreura ;

FFYDD.

Rhyw angor ollyngwyd tu draw i fro angau ;

GOBAITH.

Rhyw seren unigol uwch anial yn golau ;

TOSTURI.

Rhyw ffrydlif yn rhedeg o wir ffynnon cariad ;

BIBL.

Arweinydd i ardal o hedd heb ddiweddiad ;

CREFYDD.

Agoriad a egyr y pyrth i'r wlad nefol ;

ANGAU.

Arf miniog sy'n torri holl rwymanu daearol ;

DAEAR.

Anialwch a deithia yr holl bererinion ;

BEDD.

Rhyw dŷ i orffwyso, lle derfydd helbulon ;

ADGYFODIAD.

Deffroad pur ebrwydd o gwsg a llonyddwch ;

NEFOEDD.

Gwlad lawn o lawenydd, goleuni a dedwydd-
wch.

Y DISGYNIAD AR SINAI.

GI fantell cwmwl oedd,
A mellt a'u fflamgoch wawr,
A'i brif gyhoeddwr ef
Oedd galarm udgorn mawr :
Ac adsain groch y daran gref,
Yn rhuo'n drwm nes siglo'r nef.

Ar asgell corwynt daeth,
A'r mynydd, rhag ei wg,
Amdowyd hyd ei frig,
A thyrch o dŷn a mŵg,
Pan y disgynnai'r cadarn Iôr
Sy'n rhodio gwynfrig donnau'r môr.

A ! fe lefarodd ef,
 A'r ddaear oll oedd fud ;
 A distaw, fel y môr,
 Pan baid ei gyffro i gyd ;
 Neu, fel gwna'r nos ddistewi cerdd
 Yr adar yn y goedwig werdd.

Fe roes ei gyfraith lem
 Mewn tanllyd air o'i law ;
 A holl genedloedd byd
 A grynnt oll gan fraw,
 Wrth glywed llais gorchmynnol Duw
 Fel taran gref wrth ddynol ryw.

I'r ddaear daeth, drachefn,
 O'r nef mewn agwedd dyn ;
 Tra dirmygedig oedd,
 Fe'i darostyngai 'i hun ;
 Newidio'r goron fflamlyd wnaeth,
 Am goron ddrain, er prynnu'r caeth.

Y gyfraith honno roes
 A gadwai'n awr ei hun ;
 Agorai'r ffordd i'r Nef
 I edifeiriol un ;
 Aberthu'i fywyd wnaeth yn Iawn,
 Gael rhoi i'r ddeddf foddlonrwydd llawn.

Daw eto yr ail waith,
 O'i flaen pob gorsedd syrth,
 A bydd pob man mor fud
 A'r bedd, a'i ddistaw byrth ;
 Neu rhaid ei adde'n Arglwydd mawr
 Pawb oll—os clywir llais yn awr.

Ymsigla'r nef a'r llawr
 Hyd eu canolbwnc hwy ;

A'r greadigaeth oll,
 I fywyd llawer mwy
 A gwyd,—a dygir hon i gyd
 Ger bron Jehofah, barnwr byd.

1852.

Marwolaeth y Parch. D. Rhys Stephen, ac ereill o weinidogion y Cysegr, yn 1852.

RHIFWYD gan angau rhyfedd—un arall,
 Hwn yrrwyd i'r dyfnfedd ;
 Gwaglw m yw De a Gogledd,
 Athraw o barch aeth i'r bedd.

Dewi enwog adwaenid—fel gwron,
 Fel gwir garwr rhyddid ;
 Dynoethi, torri pob tid,
 A garai—fe'i mawr gerid.

Ieithwr a'i ragoriaethau—oedd Dafydd,
 Difwlch ei wybodau ;
 Dyn llawn oedd, iawn ei ddoniau,
 Mwy 'i wir ddysg na nemawr ddau.

Duwinydd na adwaenir—un o'i uwch
 Na'i well ni ddanghosir ;
 Ei fawredd a glodforir—
 Sai ar ei ol amser hir.

Ambell un mawr, mawr am oes—y ceir ef,
 Ansicr yw o eiloes ;
 Derfydd ei ddawn—dawn od oes—
 A'i enw gyda'i einioes.

Ond Dewi fu'n fri i'r fawr iaith,—fu'n dŵr,
 Fu'n darian mor berffaith,

Bydd e fel yn byw ddwywaith—
Byw'n ei oes, a byw'n ei waith.

Ei ran o boenau'r einioes—a gafodd,
A gofid a'i dromloes ;
Ond galar na dig wawloes
Mwy ni ddaw—mewn newydd oes.

O daer angau fel y dringodd—at wŷr,
I'w torri fe frysiodd ;
Pedwar* o werth o'n pau drodd—heblaw fo
I'w syn oer ogo'—Sion a rwygodd !

Aeth Daniel dawel a diwyd—i'r bedd,
Gwr o barch drwy'i fywyd ;
A Morgan—dyma ergyd—gwr ffyddlon,
O dan ei goron roed yn y gweryd !

Enwog Ieuan a fu'n gwywo—yn hir,
Tra'n aros ei amdo ;
A Thegid aeth i'w ogo',
Er ei ddysg a'i fawredd o.

Blwyddyn na bu hil Adda—yn gweld
Ei gwaeth yw hon yma :
Yn boenus pawb a'i henwa—y fwyddyn
Y cwypai'r gelyn bengampwyr Gwalia.

Hunwch, fy mrodyr anwyl,—yn araf,
Gwna ereill eich gorchwyl,—
E rwygir bedd ryw egwyl,
Cewch godi i gyd, cewch gadw gwyl.

* Y Parchn. Daniel Jones, Llanllechid : Morgan Howell :
Evan Jones (Ieuan Gwynedd) : J. Jones (Tegid), M.A.

GWALLTER MECHAIN.

Awdl er coffadwriaeth am y Parch. Walter Davies, M.A.
(*Gwallter Mechain*), bardd a bynafiaethydd rhagorol
yn ei oes.

TROM och am Walter Mechain—rydd y
wlad,

A grudd wlyb mae'n llefain ;
Hiraeth sy, gwn wrth y sain,
O herwydd un wnai 'i harwain.

Y mae'r gwr i'r Cymry gynt
Fu yn nawdd, fu'n gefn iddynt,
A'i athrylith reolai
Waith y beirdd, gan noethi bai,
A nodi trwy feirniadaeth
Y llinell rhwng gwell a gwaeth,
Wedi i roi mewn daear werdd,
Ar ol einioes hiroes hardd ;
Mwy ni chawn emyn na cherdd,
Wele'i bin o law y bardd.

Beirdd ein hoes sy'n brudd, yn awr,
Ar ol ei roi ar elawr,

A gollwng i dduon gellau—y gro
Grewr meddylddrychau.

Er's oesoedd, yr oedd yr iaith,
Diameu, ar fynd ymaith,
Heb fawr i'w hachub o fedd,
Na'i hadferyd i fawredd ;
O fin y tost gyfnod hwn
Hannai'r gwr, 'nawr, a garwn ;
Gwir addysg gadd o'r gwreiddyn,
A buan daeth yn ben dyn.

Gwyddai 'r Omeriaith, bêr iaith y Brython,
 Chwalai ei hadail i'w gwyth waelodion,
 Adwaenai 'i seiniau, ei dawn a'i swynion,
 A thân ei haruthr we a'i thynerion ;
 Mynnai weled ei manylion—yn hawdd,
 Ei geriau anhawdd a'i holl gywreinion.
 Hen awdwyr a'u hynodion—ddeonglai,
 Ef a ddeallai 'r t'wyllaf weddillion.

Hynafiaethau ni fethawdd
 O dew niwl ddirnad yn hawdd.

Ac ysgrifau, fu 'n destynau,
 Am hir oesau o ymryson,
 A eglurai, o'i flaen chwalai,
 Draw e giliai eu dirgelion.

Chwiliai i wythi yr uchel ieithoedd
 A'u hynod eiriau, hyd eu dyfnderoedd,
 A mynnai weled, er trwm anialoedd,
 Yr hyn gynhwysai yr enwog gynoesoedd ;
 Amryw weadau cerdd Homer ydoedd
 O dan ei law, adwaenai ei luoedd :
 Awen a dysg Rhufeiniad oedd—amlwg
 I'w gywiraf olwg, a'u rhyfeloedd.

Rhag ei weld mae daear gau
 Rhyngom—mae dan law 'r angau.

Yr oedd enaid barddoniaeth,
 Neu awen wir, yn a wnaeth,
 A thorrai hon drwy iaith rydd
 Ein hawenog anianydd.
 Beirniadaeth hwn, barn ydyw,
 Ni wad ein beirdd, sy'n dân byw,

Yn oddaith i gynghaneddion—diwerth,
 Neu daeog orchestion ;

Y gwr na roddai goron
Glaer y bardd i gler y bon.

Gwir awenydd a goronai—yn llwyr,
A llawryf fe 'i gwisgai,
A gwyneb un gân a bai*
Er bonedd, ni dderbynai.

Wych un, yn ei gychwyniad,
Isel oedd barddas y wlad,
Yr awen der, o ran dysg,
Yn bruddaidd, heb wir addysg
O'r hen ddull, rhyw un neu ddau,
O athrylith wir olau,
A wyddent am roi addysg
Y wir ddawn i rai o ddysg:
Ac am roi i Gymru wen
Athrawiaeth y wir awen;
A thriniau bur athroniaeth,
Llwybro 'n hir ei llwybrau wnaeth.

Mawr waith ei hamrywiaethau—deallai;
A dull gweithrediadau,
Egwyddor, ac agweddau—deddfau hon,
O gudd ddirgelion, ddygodd i'r golau.

A'i lewyrch gwnai et oleuo—pob pwnc,
Pob peth rho'i law arno;
Gweler ei waith eglur o,
A'i nodwedd, gan a wado.

* Ystyrir beirniadaeth Gwallter Mechain ar gyfansoddiadau barddonol, mor ragorol, fel mai prin y dywedid dim, yn gyhoeddus o'r hyn lleiaf, yn erbyn ei benderfyniad. Nid ydyw yr awdwr yn cofio ond un engraff yn oes y bardd hybarch, y bu un math o rwnnachiad cyhoeddus yn erbyn farn ef.

Cof Gwallter Mechain 43

Gyda'r prif ddiwygiadau—hyd yr oes
O du'r iaith a'i breintiau ;
Am ei chael i ymwychau—mewn nerthoedd
Er dal i oesoedd yn ei haurdlysau.

Yr oedd yn gyfarwyddwr,*
Yn ei beryf † hardd, yn brif wr.
Puro hon heb un prinhad
O'i mewn oedd ei ddymuniad,
Na salwch, neu iselwedd,
Ar ei gwisg, i hacru 'i gwedd.
Rhoddai wawr ar farddeiriau
Ereill er eu llwyr wellhau ;
Hen feirddion, i fwy harddwch,
Troai oll o'r tyrrau llwch ;
Huw Morus anghymarol
Yn ei deml wych deimla 'i ol ;
Glân y coethodd Glyn Cothi,
A'i fawr waith ddygodd i fri :
Mynnai o fedd, y mae'n fyw, ‡
Haeddwaith Canoldref, heddyw,
Ei farn ef, i fri yn ol,
Ddoi a'r awen ddireol ;
Dygai elfennau digardd §
I roi byw 'n awyr y bardd,
A phurddysg i'n hyfforddi
Oll i'n hiawn lwyr wella ni.

* Director. † One who causes.

‡ Cyfeirir yn y llinellau uchod at argraffiadau newyddion a ddaeth allan o dan olvgiad Gwallter Mechain, o waith Huw Morus, Lewws Glyn Cothi (mewn cysylltiad a'i gy'aill Tegid) a'r Psalmiau gan Gwilym Canoldref, sef, Captain William Myddleton.

§ Not transgressing.

Troai allan bob troellau—dichwaethiad
 A chwithig ffigyrau ;
 Ac i wawd â'i ergydiau—ef o'i wÿdd
 Yrrai annedwyddd goeg addurniadau.

I galon Awdlau gwelai,—o honynt
 Darluniad a dynnai,
 A'i bwyntel ef a baentiai
 Awen bur heb yr un bai.

Ail nawdd roi i lenyddiaeth,
 Yn ei oes, a'i hurddo wnaeth.

Er i'r gwr mawr ei ragorion—am oes,
 Dramwyo iaith estron,
 Ei hen iaith, a thlynsni hon,—heb hoced,
 Hawdd iawn oedd gweled, ddenodd ei
 galon.

Y hi a'i thân a'i thonau—aneisor
 Oedd nes iddo yn angau ;
 A hon a ddaeth o'i enau,—ddiweddaf,
 Dyma y nesaf, hawdd gweld, mewn eisiau.*

Ei dreithiau† golau gwelir
 Sy'n llawn dysg neu addysg wir ;
 Ar Ryddid a'i oreuddawn
 Rhoes Wallter ddewrder ei ddawn ;
 Darlun yw, a darlun oedd,
 O erch loesau'r Chwil-lysoedd,
 A dinistr eu dirdyniad
 A'u mawr lid mewn amryw wlad.

* "His last words were uttered in the Welsh Language nearest his heart, and therefore uppermost in extremities."—*Memoir in the Shrewsbury Chronicle.*

† "On Agriculture."—"On the Life of Man."—"On Liberty."

A gyrrai olau drwy y Gréalod*
 Iluoedd adwaenem o leoedd dinod ;
 Nid dyrus eiriau, traha a sorod,
 Na geiriau fyddai i greu rhyfeddod,
 Ond y gair diguro,—dodai'n lân,
 Yn ei le 'i hunan, mewn goleu hynod.

Cyfanwaith o'r tecaf inni—ydyw
 Pob awdl wnaeth drwyddi,
 Heb air, yn ol ein barn ni
 Ar ei geiriau'n rhagori.

Ei benhillion a'i englynion
 A'i gywyddion mewn gwe addas,
 Sy'n naturiol oll wrth reol
 Yn gyfurddol 'nol teg farddas,
 I'r Delyn ei englyn o
 Ai fwyn sain a fyn swyno ;
 A'i "Lywelyn, Lyw ola',"
 Yn bur hir hwnnw barha.

Ei drylawn Awdl ydyw'r darluniadon
 Goreu a welir o faes brwydr greulon ;
 Lliwia ryfelwyr a'u holl orfaelion,
 A lludded agwedd eu lladdedigion ;
 A dinistr aml o dan eisiau trymion
 Ar feddiannau rhyw dorf o ddynion ;
 Trefi yn oddaith, twrf y newyddion
 Yn rhoi i gannoedd destyn oer gwynion ;
 Nes y mae drych a llewyrch y llun,
 Y niwl hyd awyr, o'r megnyl duon,
 Cyrff dan draed, yn eu gwaed—ôl ergydion,
 Er cwilydd i fâr cleddyfau hirion,

* "The Cambrian Registry." "Cambro Briton." "Cam-
 brian Quarterly" "Greal," and the "Gwyllydydd."

Yn hawdd i'w canfod yn hon,—darlun gwir
Yw'r drych a welir o frwydr i'w chalon :

Mae'r paentiaid yn baentiaid byw,
Coffad un o'n cyff ydyw.

Mewn Eisteddfod dan nod addurniadawl,
Gwobrau ei awen a'i ddysg boreuawl,
Onid ydoedd ef yn awdurdodawl
O ran ei henaint a'i fri anianawl ?
Teilyngai, mynnai ein mawl—a phlygem
Iddo, a rhoddem barch oedd wir haeddawl.

Ni fu esgob yn ei brif wisgoedd,
Neu brif ynad gwlad a'i goludoedd,
Uwch eu parch—hybarch oedd,—dysgawdwr
A gwiw lywiawdwr Gwalia ydoedd.

Ar ei sedd llanwai'r swyddau—a gawsai
Wrth gyson reolau,
Mawr ddyd mewn amryw ddoniau—oedd
e'n wir,
O'r braidd y gwelir ail i'r bardd golau.

Fel duwinydd, coffeidiar ei enaid
Fannau diogel y ffydd fendigaid,
Fod yn Nuw Ior i fyd o anwiriad
Iechydwr iaeth lanha bechaduriaid ;
Agor ei thrysor wrth raid—a'i daenu
Wnai ef i gwnnu i'r Nef y gweiniaid.

Ei ddiwydrwydd, er mawredd ei oedran,
Yn ei fyfyrdod, ei nwyf a'i fawrdan,
I uchel weini, a chwilio anian,
Oedd yn ddihareb—a'i ddoniau eirian
A'i awen ef nid oedd yn wan—daliai,
Ei gwedd a wellai, ni wisgodd allan.

Cof Gwallter Mechain 47

Ei ddyddiau a ddiweddodd,—yn llawnion
Mewn llannerch a hoffodd,
Yn y tir hwnnw torrodd—y golau,
A'i amryw wenau ar Gymru hunodd.

Olynai 'r bugail enwog—droes air Nâf
Drysor Ne' odidog,
Y cyfieithiad cyfoethog,—'nol hirnôs,
I iaith y Werinos anllyth'renog.

Enw Mochnant a Phenmachno—bery
Tra bo 'r dŵr yn treiglo,
Oes yr Haul a'i asur o,—drwy'n gwlad lân,
Am enw Morgan bydd son mewn mawrgo'.

Yn mro y gwir-ddysg ein bardd mawr gerddai,
A'r un addysg a'r doethawr weinyddai,
Am ei ddihalog ddawn y meddyliai,
A'i fawr ragorion ef a hir garai,
Enw hwn parchu a wnai,—rhoes ei serch
Ar y wiw lannerch bu'r gwr olynai.

Dylid rhoi maen, maen mynawr—o werth
byth
Wrth ben bwrdd yr allawr,
A'i gerfio er cof gwirfawr,
Am wŷr fu eill dau mor fawr.

Rhaid inni, frwd Awenydd,—dy adael
Dan y dudew gaerydd;
Huno gei dan y gwŷdd,—dy awen ddyrch
Hi rodia lennyrch yr ardal lonydd.

Bu yr adeg i brydydd—gael ei roi
Dan glo 'r arch yn llonydd,
Yn alar drwy 'n heolydd,
Ac Och fawr, ac Och a fydd.


CHRISTMAS EVANS.

☉ YFAILL anwyl, i b'le'r aethost !
 A oes gobaith dy weld di ?
 Mawr yw'n hiraeth am dy gwmni,
 Tywallt miloedd ddagrau'n lli ;
 Siwrnai hirach nag arferol
 Ydyw'r siwrnai farwol hon ;
 Siwrnai i gladdu pob blinderau,
 A gofidiau rwygai'r fron.


Wrth wneud cynllun o dy deithiau
 Heibio i'r hen gyfeillion cu,
 Prin disgwyliast weled angau
 Yn dy gwrdd â'i arfog lu :
 Teimlo 'i ergyd ar lan Tawy,
 Gest yn farwol dan dy fron ;
 Cwypodd angau gawri nerthol,
 O dy flaen, ar lannau hon.

Harris enwog, a'i fab Ieuan,
 Iwan hefyd aeth i'r bedd ;
 Wrth derfynu oes y rhainy
 Cadd mewn brasder drochi 'i gledd ;
 Gwisgo prudd-der trwm hyd heddyw
 Mae'r wlad eto o'u hol hwy ;
 A dy gwympto dithau i'r beddrod
 Sydd yn ail ddyfnhau y clwy'.

Mordaith esmwyth gest i groesi
 Nes cyraeddyd draw i'r lan ;
 Iesu mawr, yr Archoffeiriad,
 Yno'n dal dy enaid gwan ;
 Llestr gyfa dan ei hwyliau
 Aeth i fewn i'r porthladd pell,



AR OROR MON.
"O'ch ffaisled, digter y domn,
A'i dimistr ar feib dynion."



A'r angylion yno'n barod
I'th groesawu i'r wlad well.
Pa beth oedd yr olwg gyntaf
Dynnai'th sylw yn y Nef?
Ai mynd heibio i bawb a wnaethost
At ei ystlys anwyl Ef?
Mynnu gweled ol yr hoelion
Yn ei ddwylaw Ef a'i draed,
Er cael testun newydd yno
Byth i ganu am y gwaed.
Soniaist lawer am Galfaria,
Am y frwydr fwy a erioed,
Pan gadd Iesu ag un ergyd
Ddreigiau uffern dan Ei droed;
Heddyw gweled y Gwr hwnnw
Gei mewn urdd a pharch a bri;
Dyro wybod, am un munud,
Beth, yn awr, yw'th deimlad di?
Bu'n calonnau 'n llosgi ynnom,
Wrth dy glywed lawer gwaith
Yn trin aberth y Cyfryngwr,
Trwy rym dawn a dynol iaith;
Ond fe hoffem gael cip olwg
Arnat ti wrth orsedd Nef,
A dy glywed, heddyw, 'n datgan
Gwerth Ei angau poenus Ef.
Ydwyt bellach wedi'th danio
Wrth gael golwg heb un llen,
Ar y Person mawr anfeidrol
Brofodd angau ar y pren;
A raid aros heb dy glywed
Yn darlunio dim o'r wledd,

Nes i angau, brenin dychryn,
Ddwyn ein cyrff i byrth y bedd ?

Pa gyfeillach gest ag Adda,
Yn nghylch codwm Eden draw,
A'r addewid dirion honno,
A afaelodd yn ei law ;
A roes Noah iti hanes
Am ddrygioni yr hen fyd,
A'r ddarpariaeth hynod gafodd
I'w waredu ef mewn pryd ?

Beth mac'r Patrieirch yn ddywedyd
Am yr aberth mawr a gaed ?
Pa beth ydoedd eu teimladau
Cyn i'r Iesu roi Ei waed ?
Beth oedd natur cenadwri
Moses ac Elias gynt,
Ar ben Tabor, gyda'r Iesu,
Cyn gwynebu'r farwol hynt ?

Gweli Rowlands fawr Langeitho,
Roberts Clynog gryf ei fydd ;
Lewis Rees, a Richard Tibot,
Cawri enwog yn eu dydd ;
Y ddau Williams, Watts, a Doddridge,
Doctor Owen, dreiddiwr llym,
Whitfield danllyd, Wesley dyner,
Dafydd Morris fawr ei rym :

Andrew Fuller, Joseph Harris,
Booth, a Herring ddoniol iawn,
Dafydd Jones o Aberteifi,
Robert Hall, a'i lestyr llawn ;
Charles o'r Bala, Jones o Ddinbych,
Roberts, gynt o Lanbrynmair,

Cof Christmas Evans 51

A mil myrdd o ddiwinyddion,
O'r radd uchaf, yna gair.
Rhyw gyfeillach bur sy rhyngoch
Wedi cyrraedd tir eich gwlad,
Pawb yn canu am yr uchaf
Am yr iechydwriaeth rad ;
Pob gwahaniaeth wedi darfod,
Neb mewn golwg ond Efe,
Roes Ei fywyd ar Galfaria,
I'w aberthu yn eich lle.
Beth yw trefn eich cymanfaoedd,
Yn yr ardal lonydd fry ?
Beth yw'r pynciau drinir gennyh,
Ger bron torf angylaidd lu ?
Ai nid hoff yw troi dalennau
Llyfr arfaethau y Duw mawr,
Darllen pethau oedd yn ddyrys
Tra'r ymdeithiech ar y llawr ?
Llawer cwlwm fethech ddatod
Sydd yn awr yn hollol rydd ;
Troion dyrys dwfn Ragluniaeth
Welwch oll yn ngoleu'r dydd :
Hoff yw gennyt, Christmas enwog,
Fry o ganol rhai'n i gyd,
Gael cip drem dros furiau'r ddinas
Ar dy deithiau yn y byd.
Cofi byth y diwrnod hwnnw
Teimlai d'enaidd ryddid llawn,
A'r gorfoledd lanwai d'ysbryd
Wedi gorffwys ar yr Iawn ;
Pan ddistawai t'ranau Sinai
Yng ngruddfannau angau'r groes,

Ac y cefaist le i anadlu
Trwy roi'th bwys ar farwol loes.

Cofi byth yr hen awelon,
Gefaist ganwaith yn y byd,
Wrth gyhoeddi aberth Iesu,
A gwerth mawr Ei angau dru
Nes y llefai dynion gannoedd
Am eu bywyd yn yr Iawn ;
Tân gorfoledd lanwai d'enaid
Wrth bregethu'i drysor llawn.

Gweinidogaeth danllyd, effro,
Ydoedd gennyf ar y llawr ;
Llawer ergyd fel daeargryn
Roist er siglo bach a mawr ;
Dawn i doddi'r galon galed
Drwy ddylanwad ysbryd Duw ;
Sobri'r gwamal wnaith leferydd,
A siriol i Sion wiw.

A ! mor nerthol dy ddychymyg,
Aden angel feddai hwn,
Dringai i uchel wlad y gwynfyd,
Chwiliai bob parth o'r byd crwn ;
Cyfoeth natur a yspeiliai,
Casglai fiodau o bob gwlad ;
Troes hwynt oll er gosod allan,
Fawrwerth iechydwrriaeth rad.

Dan astudio trefniant achub
Yr ymlwybrai i lan y bedd,
Newid gwlad, nid newid gorchwyl,
Ga'dd wrth fynd i wlad yr hedd ;
Yn ei wisgoedd cysegredig
Yr wynebai angau du,

Cof Christmas Evans 53

Dan ei goron, diangai adref,
I ardaloedd gwynfyd fry.
Chwith i Gymru gladdu'i gwron,
Un o'i chawri enwog iawn ;
Cofiai fechgyn y diwygiad,
Dull eu hoes, a nerth eu dawn ;
Marwor tanllyd oddiar eu hallor,
Daniai 'i enaid ef drwy 'i oes :
Wedi 'i gladdu, beth wnawn bellach ?
Un o'i gyfryw ef nid oes.

Dyma ddiwedd y dawn hwnnw,
Roe y wlad i gyd ar dân ;
A ddisgynnai fel gwynt nerthol
Nes gwnai i'r goedwig blygu'n lân ;
Un o udgyrn canrif arall
Ydoedd Christmas, ar ei hynt,
A adawyd in' fel engraff
Beth oedd doniau Cymru gynt.

Tynnu sylw tywysogaeth
Wnai ei ddawn lifeiriol gref ;
Pwy'n fwy addurn i gymanfa
A'r esgynlawr nag oedd ef ?
Yno traethai am oludoedd
A mawr gyfoeth angeu loes,
Nes gwnai'n dwym galonnau miloedd
Wrth neshau at odre'r groes.

Anhawdd byth fydd im' anghofio
Grym ei feddwl, nerth ei ddawn ;
A'r difyrrwch gefais ganwaith
Yn ei gwmi siriol iawn ;
Ei sylwadau darluniadol
Oeddynt natur bur bob un ;

Ei hyawdledd annherfynol
Oedd arbennig iddo ei hun.

Pe cawn gyrraedd Abertawy,
Wylwn ddeigrin ar ei fedd ;
Bydd yn chwith im' dramwy heibio
Heb gael golwg ar ei wedd ;
Sw'n llifeiriol ffrwd ei ddoniau
A ddistawodd yn y glyn ;
Gorwedd mae mor fud ag ereill,
Annerch neb o'r bedd ni fyn.

Y dwfn-dreiddiawl lygad tanllyd
A chwareuai yn ei ben,
O'r hwn ffrydiai hidl ddagrau,
Wrth goffâu am Grist ar bren ;
Hwnnw gollodd ei fywiogrwydd,
Darfu'n llwyr ei siriol wawr ;
Mae'i law gywrain fu'n sgrifennu
Wedi fferru yn y llawr.

Ebenezer,* gyfaill hawddgar,
Aeth yn fuan ar ei ol ;
Bron na chawsant gydfynd adref,
A chan engyl eu cyd nol ;
Rhaid i ninnau frysio atynt,
Nid yw'r oes i hir barhau ;
Er pob traferth a helyntion,
Diwedd ddaw i'n dyddiau brau.

* Mr. Ebenezer R. Jones, mab i'r Parch. Daniel Jones, o L'erpwl, gwr ieuanc gobethiol iawn, yr hwn oedd gyfeillgar dros ben â Mr. Evans, ac oedd yn Abertawy ddydd ei gladd-edigaeth ; bu yntau farw yn fuan ar ei ol, er mawr alar i'w anwyl deulu, ac i lu o gyfeillion, ac yn mblith eraill i'r awdwr.

DINAS MAWDDWY.

DAN addas rhwng mynyddau—yw'r Ddinas
Hardd enwog ei chaerau ;
Lle dymunol, bywiol bau,
Yw ei bronnydd a'i bryniau.

CYMRU, CYMRO, CYMRAEG.

DAWRYGA gwir Gymreigydd—iaith ei
fam,
Mae wrth ei fodd beunydd ;
Pa wlad wedi'r siarad sydd
Mor lân a Chymru lonydd ?

Y PARCH. GRIFFITH HUGHES, GROESWEN,
MORGANNWG.

TYNERWCH—tân ei eiriau,—drwy'i
einioes,
Wrth drin athrawiaethau,
A gyrhaeddodd bob graddau,
Yn ei nerth, heb brin wanau.
Yr hyawdledd fu'n rhedli'—am hiroes,
Fu'n gwneud mawr ddaioni,
Heibio'r aeth, ni cheiff ddim bri,
Mewn tywyll fedd, mae'n tewi.

Y FEIRNIADAETH.*

DERBYNIWYD deg o gyfansoddiadau ar farwolaeth y Parch. Evan Jones (Ieuan Gwynedd), y Parch. Morgan Howells, y Parch. Dafydd Rhys Stephen, a'r Parch. John Jones (Tegid), sef yr eiddo "Calon Ddrylliog," "Ewyllysiwr," "Ymgeisydd," "Llafar Bid Lafar," "Disgybl," "Un o'r Galarwyr," "Aneurin Gwawdrydd," "Caswallon," "Galarwr Galarus," a "Marah."

Prin y gallem feddwl fod "Calon Ddrylliog" ac "Ewyllysiwr" wedi bwriadu i'w cyfansoddiadau gael eu doddi yn y gystadleuaeth; ond eu bod, yn hytrach, wedi cyfansoddi oddiar ddymuniad i dalu y deyrnged a allent hwy i'r enwogion a fuont feirw. Y mae "Calon Ddrylliog," heblaw fod ei gân yn rhy ddy-syml ar y testyn, wedi torri y rheol, drwy ddodi ei enw priodol yn amlwg wrth ei ysgrif; ac y mae "Ewyllysiwr," nid yn unig yn fyrr, ac yn ddiamican, ond yn wallus dros ben yn ei eiriad. Y mae yn anhawdd gennym gredu hefyd fod yn mryd "Ymgeisydd," "Llafar Bid Lafar," na "Disgybl" ennill y dorch, oblegid nid ydynt wedi gwneud gorchestwaith ar destun mor deilwng. Nid ydym wrth hyn yn eu collfarnu fel rhai annheilwng o sylw, nac fel rhai heb fod ar eu goreu wrth gyfansoddi;

* Traddodwyd y feirniadaeth hon yn Eisteddfod Aberystwyth, dydd Gwener y Groglith, 1853, ar bryddest er coffadwriaeth am bedwar cadarn fu farw yn 1852, sef Ieuan Gwynedd, Chwef. 23, yn 32 mlwydd oed; Morgan Howel, Mawrth 21, yn 58; D. Rhys Stephen, Ebrill 24, yn 45; a Tegid, Mai 2, yn 60.

Eisteddfod Aberystwyth 57

os felly yr oeddynt, dymunem eu calonogi i fyned ymlaen, gan gofio y ddiareb, " Rhaid cropian cyn cerdded."

Ar destun fel hwn, lle y cynygir gwobr mor ardderchog, ni ddisgwyliem gael ond galarnadau o'r fath oreu a mwyaf coeth; ac yn hyn ni chawsom ein cwbl siomi, canys y mae arwydd o lafur mawr ar rai o'r pryddestau. Buasai rhai o'honynt, o ran eu syniadau, yn anrhydedd i'r Eisteddfodau mwyaf rhwysgfawr a gynhaliwyd erioed yng Nghymru; ie, yn werth cyhoeddi Eisteddfod er eu mwyn. Yr ydym yn tybio y bydd y bryddest mewn mwy o fri nag un amser ar ol yr Eisteddfod hon. Y mae llawer o gywirdeb iaith ac acen yn rhedeg drwy y rhan fwyaf o'r pryddestau, ac y mae ynddynt gyflawnder o hanes y gwrthddrychau y sonnir am danynt. Y peth y syrthia amryw o'honynt yn fyrr ynddo yw amddifadrwydd o'r hyn a ystyrir yn wir farddoniaeth. Y mae rhagor rhwng odlwr neu gynghaneddwr a bardd; a hoffem yn fawr allu gosod argraff o hyn ar feddwl ein beirdd ieuainc. Y mae rhywbeth mewn barddoniaeth heblaw fod y llinellau " yn cylymu yn y pennau." Gall barddoniaeth o'r radd uchaf fod mewn ymadroddion heb odliad na chwlm, megis y mae gennym engraffau o'r Ysgrythyr Lân, ac yng " Ngholl Gwynfa " Milton; a gall y plethiadau mwyaf cywraïn a dyrys fod mor wir amddifad o enaid y gân ag yw copa Cadair Idris. Iaith y teimlad yw barddoniaeth o'r iawn ryw, wedi ei gosod allan mewn geiriau coethedig a dewisol. Nid yw y bardd i lefaru yn nullwedd y cyffredin,

er nad oes ganddo drwydded i arfer cruglwyth o eiriau anghyffredin a thywyll, fyddont yn dueddol i dynnu sylw y darllenydd oddiwrth ysbryd y gerdd i chwilio am eu hystyr hwy. Nid ydyw efe yn edrych ar wrthddrych yn yr un goleu ag yr edrycha llygad cyffredin arno, nag yn adrodd ei olygiadau am y cyfryw wrthddrych fel y gwnelai y cyffredin; ac y mae perygl i feirdd ieuainc dybio fod adroddiad cywir a digoll o hanesiaeth unrhyw wrthddrych yn farddoniaeth; yn enwedig os bydd acenion y llinellau yn disgyn yn naturiol, ac os bydd odliadau ynddynt. Yr ydym yn barnu i amryw o'r ymgeiswyr ar y testun presennol feddwl hynny: ac fod cannoedd o gyfansoddiadau wedi pasio yng Nghymru fel barddoniaeth, ac wedi emmill tlysau, nad ellid, a dweyd y goreu am danynt, ond arwyddo eu bod yn adroddiad cywir o hanes, heb ddim barddoniaeth. Os nad oes rhywbeth gwahanol i hanes i fod mewn barddoniaeth, ni fyddai waeth cyhoeddi gwobr am yr hanes goreu, heb rith cân, na mynegi y rhoddid gwobr am yr awdl neu y bryddest oreu. Y mae cannoedd o ddynion yng Nghymru yn seiri cynghaneddion, ac yn gallu asio llinellau wrth eu gilydd, na feddant un math o amgyffred beth ydyw barddoniaeth. Y mae gennym hefyd filoedd o gyfansoddiadau dan enw emynnau, a llawer o'r rhai hynny yn cael eu canu bob Saboth, yr arswydem pe meddyliem fod rhywun yn bwriadu eu cyfieithu i'r Saesonaeg, neu i ryw iaith arall. Y mae llawer wedi cymeryd yn eu pennau mai peth hawdd yw gwneud pennill o emyn, neu gasglu

Beirniadaeth Aberystwyth 59

llyfr o emynau; ond yr ydym ninnau yn meddwl mai gorchwyl anhawdd iawn ydyw pob un o'r ddau; a phe gallem argyhoeddi y genedl yn gyffredinol o hyn, caem lai o bethau annheilwng drwy y wasg nag a geir yn y dyddiau yma dan enw emynau.

Ni wnelai deall mwy a y pwnc, mai nid barddoniaeth yw pob peth sydd yn cael ei gyfansoddi mewn mesur o ryw hyd neilltuol, ddrwg i'n prydestwyr yng Nghymru. Y mae Coleridge yn dweyd mai y rhagor sy rhwng rhyddiaeth a barddoniaeth yw mai "geiriau yn y drefn oreu yw rhyddiaeth, ac mai y geiriau *goreu* yn y drefn *oreu* yw barddoniaeth." Y mae yn rhaid i ddyn, cyn y byddo yn fardd, nid yn unig weled pethau yn is na'r wyneb, ond rhaid iddo deimlo mor ddwfn ag y mae efe yn gweled; rhaid iddo nid yn unig weled fod y peth yn wir, ond rhaid iddo hefyd deimlo ei fod yn wir. Prydyddiaeth, gan hynny, yw gwirionedd wedi ei ysbrydoli gan deimlad, ac wedi ei anadlu i ffurf o brydferthwch ac arucheidd.

"Number and rhyme, and that harmonious sound
Which not the nicest ear with harshness wound,
Are necessary,—yet but vulgar arts;
And all in vain those superficial parts
Contribute to the structure of the whole,
Without a genius too—for that's the soul."

Y mae "Un o'r Galarwyr" wedi bod yn llafurus dros ben; ac y mae ei alargan yn cynnwys hanes y gwrthddrychau y galërir ar eu hol, ynghyd a'r teithi perthynol i nodwedd pob un o honynt, yn lled gywir. Ei fai pennaf yw dweyd gormod, heb goethi digon ar ei

feddyliau a'i linellau : y mae yn gollwng llawer o honynt yn rhy rhwydd ; ychydig o drydan sydd yn y darnau nesaf at farddoniaeth o ran eu hysbryd. Er nad ellir dweyd fod y cyfansoddiad yn gwbl ddiflas, eto nid oes ynddo ddim o'r gorffeniad a ddisgwylid. Na ddigalonned yr awdwr ; os ieuanc ydyw, gall ddyfod ymlaen yn enwog. Gwnai bwriad ymaith y darnau canlynol leshad i'w alargan. Ym marwnad Ieuan Gwynedd :—

“ Cân, O cân i'w goffadwr'aeth,
 Ysgrifena'i oes i lawr,
 Cerfia'n nghreigiau'r greadigaeth
 Deithi ei ogoniant mawr ;
 Tyn ei ddarlun oll rinweddol,
 Minnau a'i hongianaf ef
 Draw wrth odreu'r seren hwyrol,
 Ac ar dalcen haul y nef.”

Y mae y cais yn y pennill a'r addewid yn afresymol. I ba beth y sonia yr awdwr am “ gerfio yng nghreigiau'r greadigaeth deithi gogoniant ” ein hanwyl Ieuan ? Ni ddisgwylasid mwy na hyn o anrhydedd pe buasai efe yn dduw. Y mae son y buasai yr awdwr yn hongian darlun Ieuan wrth “ odreu'r seren hwyrol, ac ar dalcen yr haul,” yn ynfyd : pa fudd fuasai gosod pentwr o eiriau yn y fath leoedd ? Y mae siarad fel hyn yn myned dros ben pob terfyn o ganmoliaeth, ac yn tueddu i droi y gwrthddrych a ddyrchefir i ddirmyg. Nid oes neb yn meddu mwy o barch i goffadwriaeth Ieuan Gwynedd nag ydym ni ; eto nid allwn gredu y cawsai ei goffadwriaeth le ymhlith

Beirniadaeth Aberystwyth 61

duwiau yr Aifftiaid, megis y dywed yr awdwr yn y llinellau hyn,—

“Cawsai gan yr Aifft 'nol marw
Le ymhlith eu duwiau'n der,
Cawsai gynrychiolydd gloew
Ganddynt hwy ymhlith y ser.”

Y mae yr awdwr yn dweyd mai ym mynydd
“Independia” yr oedd Ieuan. Enw a roddir
gan wawdwyr ar Anibyniaeth ydyw hwn. Y
mae ganddo ryw son hefyd am “bipiana,”—

“Pipiana'r defnyddioldeb mawr.”

Pipian yw cwyno: amhriodol yma. Y mae
y llinell ganlynol yn rhy arswydus,—

“Yn crynnu, ac adwy gerllaw idd ei galon.”

Nid ydym yn deall y llinell,

“Tra nad oedd y cydnabyddiaethau ond laes.”

“Ni chelai un erthygl na brawddeg fynd heibio.”

“Chelai” sydd amhriodol yn lle ni *chawsai*.

“Syr Benjamin Hall, a'i Wenynen hael galon,
A'u trysorasant fel crair yn eu serch.”

sydd yn swnio yn lledchwith. Dyn yn grair
mewn serch!

“Yn nyfais ei athrylith gron,”

sydd yn rhoi meddylddrych rhyfedd am
athrylith.

Y mae rhyw bethau mwy amrwd yn marw-
nad Morgan Howells nag yng ngalargan Ieuan:
fe ddywed yr awdwr fod y gwr hwnnw yn un

“Mawr yn nghyhoedd, mawr yn nghel,”

yr hyn sydd yn anghywir o ran iaith. Ac ar
ol ei godi mewn santeiddrwydd ac enwogrwydd

"hyd y ne'," y mae efe yn priodoli rhyw ym-
adroddion cyffredin iawn i un a ddeuai allan

" ——— o'r dirgel gynghorau,
A'r defynau ar ei ben,"

sef ei fod yn dweyd,—

"Rhyngoch chwi a ninnau' nawr,
Pe bai'r byd yn myn'd yn gregin
Cyn y boreu bach, ni'm dawr."

Y mae yr iaith a briodolir iddo yn rhy isel, yn
ymyl y dyrchafiad a roddwyd i Morgan Howells.
Y mae y darluniad a rydd efe o hono yn y
pulpud yn debyg fel pe buasai yn tynnu darlun
llamddelw (*puppet*), yr hyn sydd yn hollol
anheilwng o'r gwr y galerid ar ei ol. Pethau
y buasai yn well eu cuddio na'u cyhoeddi oedd
pethau rhyfedd Morgan Howells, os na allesid
eu gosod allan mewn gwell chwaeth na'r llinell-
au canlynol:—

"Edrych arno'n ymddarostwng
Lawr yn yr areithfa'n awr,
Fel pe buasai pwys gogoniant
Trefn Dau yn ei wasgu'i lawr;
Gwel ef eto yn ymgodi,
Megis i roi llam i'r nef,—
Twythyr rhyw addewid ddigryn
Nawr oedd dan ei wadnau ef.

"Edrych eilwaith arno'n estyn
Hyd y llawr ei ddeheu-fraich,
Fel pe buasai am ddwyn hefyd
Yr holl dyrfa yn ei faich;
Cedi'r Bibl a wnai i fyny,
Cau ei ddwrn, neu daro llaw,
Fel pe buasai'r ffydd am herio
Uffern lidiog drwyddi draw."

Y mae efe wrth son am hyawdledd y gwr, yn
dweyd ei fod yn "gwthio ei ddrychfeddyliau
fel tonnau chwyddawg y môr, y naill ar ol

Beirniadaeth Aberystwyth 63

y llall, fel nas gwyddai beth a wnai"; eto y mae efe yn yr un pennill yn dweyd,—

"Megis wrth ei harllwys allan
Y bwrlwnia'r gostrel lawn,
Yr oedd yntau yn ystumio
Gan annrhaethol bwys ei ddawn."

Nis gwyddom pa iaith yw "bwrlwnia," na pha briodoldeb sydd yn y ddau ddarluniad. Oni buasai ein bod wedi gweled Morgan Howells, a'i glywed amryw weithiau, a chael hyfrydwch wrth ei wrando, buasem yn meddwl mai y creadur anferthaf a fu erioed wrth ben cynulleidfa ydoedd, yn ol darluniad "Un o'r Galarwyr" o hono. Y mae ganddo amryw bethau ereill sydd yn swnio yn rhyfedd, sef "gwirioneddau fflamlyd, fflwch," "perl o'r llwch," "Calfiniaeth oedd ei enwad." Nid oes unrhyw sect a elwir yn Galfiniaeth, can belled ag yr ydym ni yn deall. Nid ydym yn ameu nad oedd ymgais yr awdwr yn dda: ond y mae wedi myned dros derfynau iaith, synwyr, a chwaeth, wrth geisio dyrchafu ei wrthddrych.

Y mae efe yn fwy cymedrol gyda Dafydd Rhys Stephen, er ei fod yn priodoli iddo yntau bethau na pherthynent ddim iddo.

"A'i dreiddiol hyawdledd yn taflu'i ddylanwad."

"Fel gwynt ar y goedwig, fel gwres haul ar fanod,
Fel gwllth a gwlaw maethlon ar flodau'r haf glân."

Y mae y darluniad yn gweddu yn well i Ebenezer Morris, neu Christmas Evans nag i Dafydd Rhys Stephen, yn ol ein barn ni. Y mae yr awdwr yn son hefyd fod

"Cryman dysgeidiaeth yn trin ei ganghennau."

Gwarchod pawb! medd pob efrydwr, rhag y

“cryman”: buasai y gyllell ysgythru yn well na “chryman.” Y mae efe yn son hefyd am Dafydd Rhys Stephen yn casglu “trysorau yr awdwyr clasurol,” a’i fod “fel yr haul bywiol” yn dychwelyd neu yn gwlawio y rhai hynny yn ol i’r bobl:—


“Fe gasglodd drysorau yr awdwyr clasurol,
Fel clir haul y boreu yn casglu’r mwya wllth;
Ac fel yr haul eilwaith yn glaiar a bywiol,
Dychwelodd hwy’n faethlon gafodydd i’n plith.”

Anaturioliol yw son am gasglu trysorau yr awdwyr a’u gwlawio; ac y mae yn llawn mor annaturioliol son fod yr haul yn gwlawio. Y mae efe yn son am haul Stephen yn “syrthio,” yn lle machlud:—


“Ei haul yn ddisymwth a syrthiodd i lawr.”
“Trochyddiaeth sy’n teimlo.”

Digon prin y cymeradwyir y gair hwn eto, mwy nag “Independia.” Buasai yn well gennym heb glywed son am sect na phlaidd yn y farwnad: y mae rhai o’r awdwyr wedi cymeryd y llwybr hwnnw. Y mae “Un o’r Galarwyr” wedi doddi llai o bethau gwrthwynebus ym marwnad Tegid nag yn un o’r lleill. Nid oes gennym unrhyw amheuaeth nad “ellir bardd o hono,” ond iddo gyfansoddi yn grynoach ac yn goethach gan gymeryd mwy o ofal gyda’r iaith.

Y mae “Aneurin Gwawdrydd” wedi cyfansoddi dros ddwy fil o linellau. Gormod o’r hanner, oni buasai fod ganddo fwy o feddylddrychau barddonol. Y mae y cyfansoddiad hwn yn cynnwys hanes pob un o’r enwogion y galerir ar ei ol i fanylrydd. Y mae yn fywgraffiad rhagorol o’honynt; ac y mae



ODDIAR Y LAN.
"Fe gylwais ru y môr,
A'i dwrf yn codi draw



Beirniadaeth Aberystwyth 65

ynndo, yn achlysurol, ddarluniadau barddonol, ond eithriadau ydynt. Nid oes ynndo gynifer o bethau gwrthwynebus yn ei ddarluniadau ag sydd yng ngwaith "Un o'r Galarwyr," ond y mae yn rhy debyg i draethawd ar fesur cân; ac ni chyfeiliornem pe dywedem y ceir mwy o farddoniath o'r iawn ryw mewn llawer traethawd nag a geir yn y cyfansoddiad hwn. Nid ydym yn disgwyl mewn caniad feddylddrychau barddonol ar draws eu gilydd, fel nad allom weled rhyngddynt, a chanfod y gwrthgyferbyniadau yn eglur; eto yr ydys yn disgwyl cael mewn caniad, bydded awdl neu bryddest, eiriau barddonol o leiaf, hynny ydyw, geiriau dewisol, wedi eu cyfleu mewn modd nad all pob math o ddynion cyffredin eu gosod ynghyd. Nid ydym yn gweled yn deg ddodi mewn pryddest ond geiriau gwir farddonol, a phob un o honynt yn meddu gwaith penodol i'w gyflawni. Y mae "geiriau llanw" mewn pryddest yn anoddefadwy. Y mae y llinellau canlynol, yn marwnad Ieuan, yn rhy gyffredin:

"Nid oedd ei gydywybod un amser yn cysgu."

"Roedd ol dwys fyfyrdod ar ei goeth bregethau."

"Ei eglwys a'i parchent, rhoent iddo bob urddas
A hoffent yn wastad ei gael i'w cymdeithas."

"Ei holl gynulleidfa a'i carent yn serchog."

"Caru yn serchog," caru, serchu yn debyg iawn i'w gilydd.

"Ei haul oedd bryd hynny yn uchel a siriol,
Nid oedd drosto gwmwl, ond tegwch rhagorol."

Nac oedd, os ydoedd yn siriol. Pa beth yw

ymadroddion fel hyn ond rhywbeth i lenwi y llinellau ? Eto,

"Oedd yn disgleirio mewn nerth a thanbeidrwydd,
A'i rediad yn dangos cysonawl ddiwydrwydd."

Nid yw y llinellau uchod yn ychwanegu un iota at ystyr y llinellau o'r blaen. Ac onid oes rhyw swm digrif yn "cysonawl ddiwydrwydd ?"

"Nid allai goganau ei wneud yn ddigalon."

"Ei ymgais gwastadol oedd bod o ryw ddefnydd,
Nis gallai un amser i aros yn llonydd."

Y mae y llinellau hyn yn ddigon gwir, ond nid prydyddiaeth ydynt. Y maent yn rhy gyffredin i fod mewn pryddest; gwnaethent y tro yn burion mewn ymddiddan dibwys.

"Ai gwir fod y bysedd a hwylient ysgrifell
Yn nghudd dan wyrddlesni digalon y briddell."

Y mae rhai awdwr yn cael hyfrydwch mawr wrth son am y drych fydd ar y corff yn ei sefyllfa lygredig yn y bedd; ond nid ydyw hyn byth yn dangos chwaeth dda. Goreu pa lleiaf gan bawb glywed am y modd y mae llygredigaeth yn gwneud ei waith ar y corff yn nhŷ ei hir gartref, oddigerth gan y rhai sy ganddynt hyfrydwch mewn son am bethau erchyll; gwell gan chwaeth coethedig beidio tynnu y cauad oddiar yr arch ar ol ei hoelio.

Y mae llawer o ailadroddiad yn y darlun o Morgan Howells, neu rywbeth tebyg i hynny; gan yr awdwr yma.

"Llefarai nes ysgwyd sylfeini'r mynyddoedd."

"Cyhoeddai fel taran yr amryw felldithion
Yn foroedd a gronnet uwch ben annuwiolion."

Moroedd uwch ben !

Beirniadaeth Aberystwyth 67

"Un diwrnod ceid clywed nertholrwydd ei eiriau Fel math o ddaiargryn yn ysgwyd mynyddau."

"Darluniodd eu hangen nes oeddynt yn crynnu, Nis galle't ddyrchafu eu llygaid i fynu."

"Pangfeydd ymddirwynent drwy galon y dyrfa, A'r annuw a ddelid gan bryder a gwasgfa."

"Yn ngŵydd ei edrychiad y crynnai'r annuwiol."

"Cyfeiria'r pregethwr ei fys i Galfaria, A llefai, 'Drueiniaid, diangwch i'r noddfa!'"

"Ond pan y cyfeiriai ei felus leferydd I ddweyd am y gwleddoedd a drefnodd Gwaredydd"

"Ddydd arall mae'n sefyll ar aelgerth Golgotha, I edrych ar Iesu yn adeg Ei wasgfa ; Ei draed ac ei ddwyllaw dan hoelion mileinig, A'i gefn hardd yn gwysau yn cael ei aredig."

Y mae y difyniadau uchod wedi eu cymeryd o rannau gwahanol o'r farwnad. Gwel y darlennydd fod yr awdwr wedi camgymeryd yn nghylch y fflangelliad ; y mae efe yn dangos mai ar y groes y gwnaed hynny ! Y mae efe yn ysgrifennu "cenlli," yn lle "cefnlli," ac y mae yn son am "falm" ar y mynychaf.

Y mae efe yn dweyd am Dafydd Rhys Stephen,—

"Am foment nis gallai ef aros yn llonydd."

Felly y dywed pob mam am fechgyn bywiog.

"Darllenai yn hynod ddeallus a phwyllog."

Onid yw y llinell hon yn gyffredin dros ben ? "Hynod ddeallus a phwyllog?" Os oedd Mr. Stephen yn darllen yn ddealladwy (nid yn "ddeallus": deallus, *knowing, cunning, discreet*; dealladwy, *intelligible, apprehensible*), onid oedd raid ei fod yn bwylllog ?

"Anfynych y ceid ei ragorach am ddarllen."

Nid oes fodd fod yr awdwr yn golygu peth fel hyn yn farddoniaeth ?

“Fe rannai ei damaid cyn cawsai fod angen.”

A'i nid ranasai y dylasai “rannai” fod, os ydyw “cawsai” yn briodol ? Y mae ei ddarluniad o Dafydd Rhys Stephen pan yn dechreu dyfod i'r golwg, yn naturiol ac yn dlws. Gresyndod mawr yw na fuasai yr unrhyw ysbryd yn rhedeg drwy y gân oll.

Y mae rhywbeth yn ddigrif yn narluniad yr awdwr o Degid ym more ei oes :—

“Danghosai fod ynddo ryw dalent guddiedig,
Gynyddai yn fuan yn bren dyrchafedig.”

Talent yn cynyddu yn bren.

“Bu'n fynych yn dringo ar goedydd y Rhiwlas,
Gan daflu ei olwg ar lwybrau y palas,
Rhag fod reb o'r teulu yn dod i'w lesteirio
I wneuthur yr amcan oedd ganddo'n dod yno.”

Pa sut yr oedd Tegid yn dangos fod ynddo ryw dalent *guddiedig*, a honno yn tyfu yn bren dyrchafedig ? Ai ei waith yn dringo i goedydd y Rhiwlas oedd yn profi hynny ?

Y mae “Aneurin Gwawdrydd” wedi cadw yr acenion yn dda, y mae ei iaith ar y cyfan yn dda hefyd, a'i ddarluniadau o'r pedwar gweinidog yn fanwl. Y peth sydd ar ol ydyw crynodeb, coethder, a thrydaniad. Gellid darllen pryddest o fath hon am wythnos heb deimlo dim ; ond ni ddylai galarnad ar ol y marw fod yn ddideimlad, gan nad pa beth a fyddo felly ; oblegid darluniad teimladol o wrth-ddrych yw marwnad i fod, ac nid dim arall. Y mae yn drueni i'r awdwr lafurio cymaint a bod mor bell yn ol yng ngwir deithi galarnad.

Beirniadaeth Aberystwyth 69

Difynwyd y llinellau fu dan sylw yma ac acw ar hyd y bryddest, ac y mae yn ddrwg gennym fynegu fod y rhan fwyaf o'r llinellau drwyddi yn syrthio ymhell o'r hyn y dylent fod. Nid ydym yn mynegu hyn er digalonni y bardd, ond er ei symbylu ymlaen. Y mae ynddo ddigon o ddefnyddiau, ond fod eisiau iddo fyw mwy dan gawodydd o wllth Parnassus. Dylai fyfyrrio yn fanwl ar y gwahaniaeth sy rhwng barddoniaeth ac iaith rydd.

Gan nad ydyw hon yn agos i'r blaen, a chan na allasem roddi y wobr i'r awdwr pe buasai hi yr oreu yn y rhestr, dichon yr ystyria rhyw-rai ni wedi myned yn rhy bell o'n llwybr wrth ymdroi ar y ffordd i sylwi cymaint arni. Gallwn sicrhau y darllenydd mai ein hunig reswm dros hynny yw ein hawyddfryd i fod o ryw wasanaeth i'n cyfeillion barddonol. Buasai yn hawdd iawn i ni ddweyd llai o'n meddwl gyda golwg ar y bryddest hon a'r eiddo "Un o'r Galarwyr," ond meddyliem mai mynegu ein golygiadau yn onest a fuasai yn ateb y diben goreu, er na welir un cerydd dros yr amser presennol yn hyfryd, ond yn anhyfryd. Y mae gormod o ganmol pob math o farddoniaeth yn bod, ac y mae gormod o wobrwyo wedi bod ar waith gwael. Bydd yn syndod i'r oes nesaf weled p'nau asynod o dlysau wedi eu cadw, a dderbyniwyd am gyfansoddiadau fyddant wedi myned i'r wadd a'r ystlumod. Pe buasai mwy o onestrwydd mewn beirniaid er ys hanner can mlynedd yn ol, buasai gennym erbyrheddyw farddoniaeth na fuasai raid i ni ostwng ein pennau fel cenedl o'i herwydd ym mhresenol-

deb beirdd Groeg a Rhufain. Y mae yn wir fod y beirniad a draetho weniaith â'i dafod, yn cael myned drwy y byd yn esmwythach na'r llall; ond melldithir coffadwriaeth y cyfryw gan yr oesau dyfodol, megis y dirmygir hyd y dydd hwn feirniaid Eisteddfod Dinbych, yn yr hon y rhoddwyd tlws Dewi Wyn o Eifion i'r Dryw.

Y tair pryddest oreu, a'r rhai agosaf i'w gilydd, yw yr eiddo "Caswallon," "Galarwr Galarus," a "Marah." Y mae yn y tair hyn lawer o farddoniaeth wir, a darluniadau effeithiol o'r pedwar cedyrn a fuont feirw. Yn ein barn ni, buasai yn well i "Caswallon" ragymadroddi llai. Nid ydym dros ragymadrodd hir mewn dim, canys y mae yn dwyn gormod o ddelw cisiau rhywbeth i lenwi cylch penodol fydd areithiwr neu ysgrifennwr wedi ei dorri iddo ei hun; ac ni wyddom am un lle mwy anghyfaddas i ragymadrodd hir na galargan, os peth i amlygu teimlad wedi ei glwyfo yw marwnad. Ni fedd teimlad clwyfedig fawr o amser i edrych o'i gwmpas, nac i drefnu cynllun manwl i'w ddangos ei hun. Pan oedd Dafydd yn galaru ar ol Saul, yr oedd yn disgyn ar ei destun fel eryr ar ei ysglyfaeth; megis, "O ardderchawgrwydd Israel, efe a archollwyd ar dy uchelfaoedd di: pa fodd y cwmpodd y cedyrn! Nac adroddwch hyn yn Gath: na fynegwch yn heolydd Ascelon; rhag llawenychu merched y Philistiaid, rhag gorfoleddu o ferched y rhai dienwaededig." A phan oedd yr un gwr wedi derbyn y newydd am laddiad ei fab Absalom, y mae yn wylo, ac yn dywedyd:

Beirniadaeth Aberystwyth 71

" O fy mab Absalom, fy mab, fy mab Absalom. O na buaswn farw drosot ti Absalom, fy mab, fy mab." Cawn Jeremiah hefyd yn cisgyn ar ei destun yn uniongyrchol, pan yn galaru oherwydd cyflwr Jerusalem, gan ddywedyd : " Pa fodd y mae y ddinas aml ei phobl yn eistedd ei hunan ! pa fodd y mae y luosog yn mhlith y cenedloedd megis yn weddw ! pa fodd y mae tywysoges y taleithiau dan deyrnged !"

Ar ol defnyddio tua chant a hanner o linellau fel arweiniad i mewn, y mae " Caswallon " yn son am y cyfryngau a ddygent yr han sion am farwolaeth yr enwogion iddo, yn dra effeithiol. Cymer hynny oddeutu dau gant o linellau, ond rhwng y cwbl yr ydym yn gorfod darllen dros bedwar cant o linellau cyn i ddarlun y cyntaf o honynt, sef Ieuan Gwynedd, gael ei dynnu ; ac y mae y bardd yn myned yng nghwmni angel mewn breuddwyd " i ddinas hardd a chref," cyn i hynny gael ei wneud ; ac nid efe sydd yn gweithredu y cwbl wedi hynny,—y mae rhyw offeiriad perthynol i " Deml Galar," ac angel, yn gwneud rhan o'r gorchwyl drosto. Y mae yr angel yn mynegu fel y bu ef yn gwyllo Ieuan yn febyn ar fron ei fam, ac am ei arferion diniwed ym more ei oes. Nid ydym ni yn gweled unrhyw angenrheidrwydd am gael gwybod hyn o enau angel ; gallasai y bardd ddyfod i ben a'r gorchwyl yn ddigon hawdd, ac mewn gwirionedd efe ei hun sydd yn gorfod gwneud y

" ——— gwaith
O ddilyn ei gamrau
Hyd derfyn ei daith,"

canys y mae yr angel yn myned

“ ymaith fry, fry,

Trwy yr awyr yn uchel.”

Paham yr oedd eisieu i'r awdwr gysgu na breuddwydio i fynegu am Ieuan Gwynedd, ac am yr hyn a wnaeth, a'i weithredoedd mor hysbys i Gymru oll? Pa fodd bynnag, y mae y bardd yn rhoi i ni bortread o nodweddiad Ieuan Gwynedd o'i fynediad i'r ysgol hyd ddydd ei farwolaeth. Go sych yw y darn hwn wedi y cwbl, er ei fod yn cynnwys hanesion a ddylasant doddi y graig. Nid oes yn y darlun arwydd o deimlad calon bardd; ond, efallai, yr ymesgusodir gan ddweyd mai angel oedd yn llefaru.

Ar ol marwolaeth Ieuan, y mae teml galar yn cael ei llanw â “gwyll araf.” Y mae “braw a'i godyn” yn ymlusgo dan fron y bardd. Y mae yn rhoi pwys ei ben “ar fron yr angel,” ac yn “ymguddio yno dan ei fantell wen.” Gwedi hynny y mae y deml yn cael ei hail oleuo, ac “aceniion byw” yn disgyn ar ei glyw. Yna y mae yr ail offeiriad yn llefaru gyda golwg ar farwolaeth Morgan Howells. Yr ydym ni yn methu canfod unrhyw angenrheidrwydd am wasanaeth angel nac offeiriad, a'r bardd yn ddigon galluog i fynegu yr hyn a adrodd-asant yn llawn cystal a hwythau. Y mae y darluniad o Morgan Howells yn llawer mwy prydfferth ac effeithiol nag ydyw darluniad Ieuan Gwynedd. Gwrandawer y bardd:—

“Tanbeidrwydd ei ysbryd oedd gyfryw ei nerth

Nad allai un cwmwl ei guddio;

Fe daflai ei lewyrch pan 'storm fyddai'n gerth,

A'r awyr o'i flaen wnaï oleuo.

Beirniadaeth Aberystwyth 73

"Pan yn ei lawn hwyliau taranai yn gryf,
A'r euog a grynnai fel deilen;
Ei rymus hyawdledd fel corwynt yn hyf,
Yn rhwygo drwy'r eang ffurtafen."

"Rai troion fe'i gwelwyd yn sefyll yn syn,
Fel Sinai cyn esgor taranau;
Ond pan y llefarai mewn agwedd ddi-gryn,
Yn lluchio ystormydd â'i eiriau."

"Ac wed'yn newidiai yn dyner ei wedd,
Fel mynydd Calfaria ei hunan;
O gylch ei wefusau ceid enfys o hedd,
A'i eiriau fel miwsig drwy anian."

"Yn awr mi a'i gwelaf a'i olwg yn synn,
Yn wannaidd o gorff ar y gorlawr,—
Fel delw yn denu a gwael y pryd hyn,
Yn offeiriad yn ymyl yr allawr."

"Ei eiriau ddyferant yn felus fel mêl,
A miloedd a welir yn gwenu;
Bry arall taranfollt yn torri mewn sêl,
A'r miloedd yn wylo a chrynnu."

Y mae Morgan Howells i'w weled yn amlwg yn y darlun hwn. Nid oes fodd darllen y darnau ardderchog a ddifynwyd heb deimlo yn ddwys.

Gwedi i'r offeiriad orffen llefaru, y mae y bardd yn adrodd yr effeithiau a gafodd hyn eto ar y wlad. Ac ar ol i'r deml ail oleuo y mae y trydydd offeiriad "yn traethu cwynion yn ei ddull galarus," ar ol Dafydd Rhys Stephen. Y mae yn y ganiad hon dlynsi yma ac acw. Y mae y darluniad o Stephen yn blentyn yn brydferth:—

"Dy dlynsi, anian, oedd yn denu'r bach
Penfelyn, gwridog, ar ei ol o hyd;
Dail gwyrddion, a briallu—ffrwythau iach,
Rhosynau prydferth—lanwent ei holl tryd;
Sain a wel gyda'r nos ymhleth â si y donn,
A sisial dail y coed, oedd fwsig lon

I glustiau Stephan ! treiglent fwyniant pur,
Ymorfoleddai wrth anghofio'i gur."

" Cael tamaid sych ar glogwyn,
Ymhell yn nghwmni'r gwynt,
A chlywed cerdd aderyn.

A hoffai ef yn gynt

Na phe mewn castell wrth ddanteithion oes,
Lle nad oes dim ond celfyddydol foes.

" Yn Gymro ganwyd ef—yn Gymro bu
Mewn iaith a theimlad drwy ei ddyddiau oll;

I Gymru daeth i farw'n blentyn cu,
Ar fron ei fam—ni chafodd fynd ar goll:

Ei anadl cyntaf gadd o'i hawyr hi,

Ei anadl olaf fynodd ganddi'n fwyn;

Mwy hoff i Stephan dyner oedd cael bedd

Yn Nghymru bach heb gwyn,
Dan dyweirch gwyrd brïallu gwylaidd wedd,

Na phe mewn estron wlad,

Mewn amgueddfa lefn,

O farmor cadarn mewn addurnol drefn."

Y mae y difyniadau uchod yn naturiol; ac y maent yn sicr o daraw natur. Y mae y darnau ereill yn gywir; ond nid ydynt yn meddu ar y teimlad sydd yn y rhai hyn. Y mae yn hawdd adnabod Dafydd Rhys Stephen wrth yr hyn a ddywedir ynddynt; ond ni themlir unrhyw gyffroad wrth eu darllen. Y mae ar y lleiaf hefyd yn cael ei ddweyd am un mor enwog; dylasai ein bardd ymhelaethu ychwaneg ar y pethau a ddywedodd. Yr oeddym ni yn teimlo ein hunain yn cael ein galw yn rhy fuan o gwmni Dafydd Rhys Stephen. Y mae llai na thri chant o linellau yn brin iawn i gofio am ddynt mor lawn o ragoriaethau, a thua phum cant wedi cael eu defnyddio cyn i nemawr ddim o bwys gael ei fynegu am yr enwogion.

Yr oedd y deml yn tywyllu, fel y gallesid

Beirniadaeth Aberystwyth 75

disgwyl, ar ol marwolaeth Stephen. Y mae y pedwerydd offeiriad yn gafael yn ei orchwyl yn bur ddirodres, ac yn ceisio rhoi darluniad o Degid i ni. Y mae yn dweyd am danu wrth y Llyn:—

"Yn fore gwnaeth yno gyfamod oedd gun
A'r Awen, ag ef ond yn blentyn ;
Y Llyn yn offeiriad a'u rhwymt yn un,
Ac Anian yn dystion gyferbyn."

"Fe'i gwelwyd yn blentyn bach isel, a mad,
Ac wedy'n yn wron athrawol ;
Yn ngodreu cymdeithas ar aelwyd ei dad,
Yn uchel mewn cylch offeiriadol."

"Fe'i gwelwyd yn siarad a thonnau y Llyn,
Ac wedy'n yn dysgu llenorion ;
Yn rhodio yn Meirion yn dlawd ac yn syn,
Yn Lloegr yn dysgu athrawon."

"Yn Gymro bu Tegid mewn diwyg a moes,
Yn nghanol rhwysg fawredd y Saeson ;
Yr awydd brwdfrydig a'i llanwai drwy'i oes,
Oedd marw yn Gymro pur galon."

"Lluch oesau orffwysodd ar ddarnau gwir ddrud
A sychodd—hwy welsant oleuni ;
A miloedd o lygaid pryderus drwy'r byd,
Uwch ben y gorchestion wnaent lonni."

"Ymweliad A'r Fala"—Y Plentyn a'r Tad,
Fwy welodd ddau rosyn prydferthach
Erioed yn blodeuo ar fynwes un wlad,
A'u harogl i bawb yn bereiddiach."

Y mae "Caswallon" wedi cyfansoddi dros bedwar cant ar ddeg o linellau. Y mae yr acenion yn gywir, yr iaith yn dda, a lluwys o'r meddylddrychau yn farddonawl. Y mae agos bob peth a allasid ddywed am yr enwogion oll wedi ei fynegu ; ond yr ydym yn beio yr awdwr yn fawr am gymeryd y dull a fabwysiadodd. Wrth geisio bod yn newydd aeth yn

annaturiol ; ac y mae yn amddifad o'r teimlad a ddylasai redeg drwy y llinellau. Os na fydd arwyddion o deimlad mewn galarnad, mewn pa beth y gellir disgwyl hynny ? Y mae mwy o amlygiad o deimlad bardd yn y llinellau a ysgrifennodd efe i fynegu pa fodd y clywodd y newydd trist am farwolaeth yr enwogion nag sydd i'w ganfod wedi hynny drwy yr alargan oll ; ond y mae gormod o gyfeirio ato ei hun, ac at anian, gan y bardd. Nid ydym yn credu fod marwolaeth y dynion enwocaf yn effeithio ar natur ; y mae pob peth yn myned yn ei flaen fel arferol, gan nad pwy a symudir i'r bedd. Er fod iaith ac acenion yr awdwr hwn yn dda ar y cyfan, eto buasai yn well gennym heb weled "mor bereiddied" ganddo, yn lle can bereiddied : y mae mor beraidd yn rheolaidd. Nid mynych y sonnir yn Gymraeg am "ddagrau chwerwaf" ; dagrau heilltion, a'r dagrau halltaf, sydd yn bur arferol. Pe buasai mwy o gyfartaledd yn rhannau y cynllun, llai o bethau amherthynasol, a mwy o deimlad yn yr alargan, gallasid amlygu mwy o gymeradwy-aeth iddi nag a ellir yn ei sefyllfa bresennol.

Y mae "Galarwr Galarus" wedi cyfansoddi galargan faith, ac y mae yntau wedi syrthio i'r cyfeiliornad o wneud rhagymadrodd lled hir. Gallasai anturio disgyn ar y testun yn union-gyrchol, canys y mae ganddo ddigon o ddefnyddiau i gynnal dyddordeb yn y cyfansoddiad o'i ddechreu i'w ddiwedd. Y mae ei ddarluniad o Ieuan Gwynedd yn nyddiau ei fabandod, yn sylwi ar anian, ac yn casglu gwybodaeth, yn naturiol ; ac y mae ei ddarluniad o'r aelwyd

Beirniadaeth Aberystwyth 77

grefyddol y cafodd ei fagu arni, ynghyda dylanwad nerthol y fam, yn dlws ac yn ddyddorawl.

" Hoffodd wên natur a'i swynion ysbrydol,
A chanai wrth weled y cyfan mor hardd ;
Cynhyrfwyd yn ieuanc ei dân awenyddol,
A'r delwau a gerfiwyd ar galon y bardd."

" Gwyliai garlamiad y nentydd mynyddig
Dros lethrau rhamantawl yr Aran i lawr,
Y rhai, fel cadwynau o arian toddedig,
A harddent y brydferth olygfa mor fawr :
I'w glust'roedd y rhaiadr crychwyn yn fwsig
Mor anwyl a'r awel chwibianai drwy lwyn,
A'i lamiad anferthol o'r clogwyn crogedig
A lanwai ei enaid â mawredd a swyn.

" Pa ryfedd fod Ieuan o feddwl mawreddog,
Tra Meirion ardderchog yn dysgu o hyd,
O'i thrumau pen-uchel, i'w phlentyn talentog
Ryw wersi na wyddai pob llannerch o'r byd :
Ond O! rhaid i'n ddiolch yn uwch i'w fam anwyl
Am arwain ei feddwl yn gynnar at Dduw ;
O'r holl ragorfreintiau, o'i febyd i'w arwyl,
Hwn ydyw'r goreu, a'r pennaf oll yw.

" Gwel y Ty Croes, y tyddyndy bach acw,
Mae'r pistyll grisialaidd gyferbyn a'r drws ;
Nid oes acw rwysgedd coegfalchaid na thwrw,
Ond mae acw olwg hynodol o dlws :
Mae'r 'Bibl coch' garwaith ddarllenwyd i'r teulu,
Gan fam dyner-galon, ar led ar y bwrdd ;
Darllenir, cynghorir, ac yna clyw'r weddi,—
Mae'r ddaear a'r nefoedd ynghyd wedi cwrdd !"

Ar ol son am grefydd foreuol Ieuan, y mae yn ei arwain i'r ysgolion, a'r athrofa, ac i'w gylch gweinidogaethol ym Mynwy—marwolaeth ei wraig a'i blentyn—ei ymdrech yn erbyn y Llyfrau Gleision—ei iechyd yn amharu—ei fynediad i Lundain—ei ddyfodiad yn ol i Gymru, a'i lafur hyd angau.

" Y llais gwan a glywyd yn nghapel y Brithdir,
Fel tyner dant telyn yn disgyn i'n clyw,

A glywyd 'nol hynny yn llawer mwy eglur,
 Yn traethu goludoedd trugaredd ei Dduw;
 Pwy fyth ddych' mygasai mai'r bachgen llwyd-ruddiog,
 Oherwydd bychander a godid i'r fainc
 I adrodd penodau, a ddelai mor enwog,
 Gan swyno pob llannerch a mwynder ei gainc.

"Cynhyrfodd ei ymdrech gasineb gelynon,
 Y rhai a'i condemniant am godi ei lef:
 Ond safodd uniondeb ei fawr egwyddorion,
 A grym ei athrylith, mor gadarn a'r nef;
 Darniai ymdrechion y giwed allanol,
 Nes chwarddai gwirionedd uwch gorchest ei chwawr,
 Ond O! er ein galar, 'roedd gelyn tufewnol
 Yn prysur ddinistrio ei babell yn awr!"

"Ond ni chadd afiechyd gloi celloedd ei feddwl:
 Os methodd y tafod ni chrynai y llaw."

Y mae darluniad y bardd o waeledd iechyd
 Ieuan, a'i lafur pan oedd yn ymyl porth angeu,
 yn effeithiol:—

"Pan ydoedd yn eistedd wrth borth du marwolaeth,
 Yn disgwyl am angau i agor y bedd,
 Ei delyn a swynwyd â dawn ysbrydoliaeth,
 A chanodd am ddydd 'Adgyf' diad' a hedd;
 Ar erchwyn y beddrod darluniai'r wlad hyfyd,
 Rhyw awen anfarwol sy'n gwisgo pob darn;
 Ac yntau fel bardd hanner-nefol mewn bywyd,
 Oleuai'r ddu ogof â llusern y farn.

"Cyrhaeddai yn fynych i'r porth sydd yn agor
 I gartre'r pererin, ond rywsut o hyd
 Gyrrid ef wed'yn yn ol gan y porthor,
 I ganol gofidiau a dolur y byd!
 Ond am y tro olaf cyrhaeddodd ef weithian,
 Agorodd—aeth yntau i fewn yn ddifraw:
 Mor dawel ag angel mewn awel yn hedfan,
 Ymadawodd heb wybod i'r rhai oedd gerllaw!"

Y mae y difyniadau hyn oll yn dlws; ond nid
 allem lai na rhyfeddu i awdwr sydd yn ym-
 ddangos yn alluog, ollwng cynifer o linellau
 drwy ei ddwyllaw a thor mesur yn eu hanurddo
 ac yn eu hanhwyluso. Nid oes unrhyw egus

Beirniadaeth Aberystwyth 79

dros dor mesur a drwg acenion mewn pryddest, lle y mae cymaint o ryddid ag a chwenycha "carwyr y rhyddid mawr" ei gael. Nid allwn edrych ar hyn ond gyda'r anghymeradwy-aeth mwyaf. Nodasom dros driugain o dor mesur yn marwnad Ieuan Gwynedd yn unig. Y mae y rhan fwyaf o'r llinellau yn farddonol, ond y mae yr acenion yn ddrwg dros ben.

Nid ydyw yr alarnad i Morgan Howells o'r un argraff yn hollol o ran ei chyfansoddiad ag ydyw yr un i Ieuan. Y mae yn fwy cyffredin, er fod yr awdwr yn fwy gofalus gyda'r acenion yn hon nag yn y llall. Y mae, pa fodd bynnag, yn dangos diofalwch a difaterwch mawr yn ei syniadau; ac nid ydyw yn cymeryd unrhyw drafferth i wisgo ei feddyliau, megis y dengys y difyniadau canlynol:—

"R'oedd yntau yn fynych yn afiach iawn, druan,
Rhwng bywyd ac angau, yn debyg i'n Hieuan;
Oedd, druan, oedd, a chan wendid corfforol
Yr oedd ganddo'n wastad gyffyrïau meddygol,
Naill a'i'n ei logell neu ynte ei gylla,
Drwy ystod blinderus ei flwyddau diwedda,
Nes ydoedd ei lafur a'i boenfawr afiechyd
Bron wedi ei rithio yn debyg i ysbryd."

Y mae yr iaith a'r meddyliau yn y llinellau uchod yn ymddangos yn isel; ac y mae yr awdwr, drwy orfanylu, wedi gwneud Morgan Howells fel math o gist gyffyrïol, canys fe ddywed fod ganddo gyffyrïau bob amser, "naill ai'n ei logell neu ynte ei gylla." Ychydig ymlaen, y mae yr awdwr yn son am ddwyn perl o'r mwngloddiau:—

"Rhyw gywreinrwydd mawr naturiol
Redai drwy ei araith oll;

O'r mwngloddiau dwfn, tragwyddol,
Dygai'r aur a'r perl digoll."

Mewn cregin, ac nid mewn mwngloddiau, y mae y perlau i'w cael, medd naturiaethwyr. Y mae yr awdwr yn son hefyd am "haul daearol," yr hyn sydd yn ymadrodd rhyfedd:

"Er myfyrio hyd farwolaeth,
Darllen llyfrau, myn'd i draul,
Nid ryw blaned mewn cyfundaeth
Oedd o gylch daearol haul."

Nid ydyw "haul daearol," na "chyfundaeth," yn gywir, oblegid nid oes y fath beth yn bod a haul *daearol*: y mae yn ormod ei alw felly am fod y ddaear yn derbyn bywyd drwyddo. Ac nid cyfundaeth yw y gair priodol am *system* yr haul, ond naill ai cyfundrefn neu drefniant: gwna cyfundaeth y tro am *system* athrawiaethol, ond nid am bethau lle na byddo traethu. Y mae swm rhyfedd yn y llinellau canlynol:—

"Gyrrir y pladuriau'n sychau,
Chwifir baner wen Mab Mair:
Dyma'r Jubil—troir yr arfaul
Laddai ddynion i ladd gwair."

"Cleddyfau yn sychau" a ddywed y proffwyd, ond "pladuriau" medd ein hawdwr. Yr oeddym yn meddwl fod y gair "Mab Mair" wedi ei alltudio o eir-res y bardd a'r pulpud, gyda "chadachau Bethlehem," a lliaws o ymadroddion cyffelyb, oedd yn gymeradwy cyn i'r Cymry ddyfod yn ddarllenwyr ac yn feddylwyr. Y mae y linell

"Laddai ddynion i ladd gwair"

yn ddigon gwir, ond y mae rhyw swm anhebyg iawn i farddoniaeth ynddi. Dywed Dr. John-

Beirniadaeth Aberystwyth 81

son, yn hanes bywyd Cowley, "Iaith yw gwisg meddwl; ac megis y cai yr agwedd mwyaf ardderchog, a'r weithred mwyaf prydfferth ei hiselu a'i chuddio gan y wisg briodol i waith dynion drelaidd neu gelfyddydwr: felly y colla yr ymadroddion mwyaf arwraidd eu heffaith, a'r meddylddrychau mwyaf ysplenydd eu mawreddogrwydd, os cant eu doddi mewn geiriau a arferir yn gyffredin, ar yr achlysuron mwyaf dibwys ac isel, wedi eu llygru gan eneuau rhai difoes a'u halogi drwy arferiad annestlus."

"O! mor rhydlyd mae'r hyawdledd
Daniai'r bobl yn y bedd,"

sydd yn eithaf amhriodol; oblegid nid peth yn rhydu, neu yn iaith y cyffredin, yn "cancro," ydyw hyawdledd. Y mae y ganiad hon, oherwydd y pethau a nodwyd, a phethau ereill a allesid eu crybwyll, yn bur gyffredin, ac yn anhebyg iawn i'r llinellau tlysion a theimladol a ysgrifennodd yr awdwr ar Ieuan Gwynedd.

Y mae y llinellau ar farwolaeth Dafydd Rhys Stephen o nodwedd uwch na dim sydd yn marwnad Morgan Howells, megis y dengys y rhai canlynol:—

"Mae awen swynedig yn llanw'i draethodau,
Ei fywiog ffraethineb a'u gwisga yn hardd,
A'i gadarn resymeg a'u doda mewn geiriau,
I grogi yn brydferth rhwng blodau y bardd:
Ceir mawr adeiladaeth o'i goethawl bregethau,
A gwledd o ddanteithion o'i wreiddiol feddyliau.
Nes ydyw y teimlad yn llonni mewn dagrau
A'i maetha fel maetha y gwllth flodau'r ardd."

Y mae yn y gân hon amryw benillion ereill sydd yn dangos yr awdwr yn berchenog ar yr awen

i raddau helaeth. Nid allwn ymatal heb ddifynnu y pennill canlynol:—

“ Mae Gwalia a’th weddwn cylchynu dy feddrod,
 A’th diodion amddifaid i gyd yn eu du;
 Pwy galon na theimlai wrth weled eu tralld,
 Pwy lygaid na wylai wrth glywed eu cri?
 Y naill am ddistewi dy arab hyawdledd,
 A’r lleill herwydd colli dy dirion ymgeledd,
 Gymysgant eu dagrau uwch ben dy oer annedd,
 Ar ol yr un anwyl a’u carai mor gu.”

Nid allem lai na rhyfeddu gwled yn ngwaith awdwr sydd yn rhoi cynifer o brofion o’i fedrusrwydd y gwallau canlynol:—“ dderyn,” yn lle aderyn; “ calon deimladwy,” yn lle calon deimladol,—calon deimladwy yw calon a ellir ei theimlo, ac nid un yn teimlo; “ chelai,” yn lle chawsai. Y mae yr awdwr yn arfer “ pwy galon,” “ pwy lygad,” yn lle pa galon, pa lygad; a rhifasom oddeutu hanner cant o linellau a thor mesur ynddynt, heblaw y rhai a grybwyllasom o’r blaen, yr hyn sydd yn anystwytho yr ymadroddion yn ddirfawr. Nid ydym yn canfod un esgus dros hynny mewn cân rydd. Beia pleidwyr y bryddest yr awdl am ei bod yn rhy gaeth. Ymddengys yn wyneb hyn fod y bryddest yn rhy gaeth hefyd i rywrai.

Y mae symudiad yr awdwr hwn o’r naill farwolaeth i’r llall yn naturiol dros ben. Ni feddylid mai pedair marwnad sy ganddo, er mai hynny ydyw y peth mewn gwirionedd gan bob un a ysgrifennodd. Y mae ei daith at Lyn Tegid, a’i fynediad at Nyfer, trigle Ioan Tegid, yn darawiadol:—

“ Gerllaw y Llan is twyn drwy’r goedwig hardd
 Y mwg ymdor hai o Vicardy’r bardd;

Beirniadaeth Aberystwyth 83

Cyfeiriem at y ty A chalon lawn,
Gan addaw gwledd i'r meddwl drwy'r prydawn :
Ond ar y ddôl, gan rywun trist ei wedd,
Hysbyswyd in' fod Tegid yn ei fedd !"

" Fel Stephan ffraeth, ac Ieuan Gwynedd lym,
Ac Howell hynod a'i nefolaidd floedd,
Ni feddai'n rhiaint fawrion byd a'u grym ;
Ac am ei gyfoeth—cyfoeth talent oedd "

" Ysbrydoledig awen Esay fwyn,
Un o'r rhagoraf feirdd fedd yr Hebraeg,
Gyfieithodd ef, gan gadw'r gwreiddiol swyn,
A chyfoethogi'r Saes'naeg a'r Gymraeg."

" Gwn na anrhegodd ef nyini erioed
A rhyw ddarluniau o ran maint yn fawr :
Rhyw ddawn cydwasgol rhyfedd iddo roed,
Mewn geiriau byrr dangosai feddwl cawr :
Rhyw fân arluniwr celfydd ydoedd ef,
A'i chwaeth ragorol baentiair' oll yn syw,
A mawr gywreirwydd ei athrylith gref
O'r gwrthrych roddai brydferth ddarlun byw ;
E fanwl ddaliai'r holl ddelweddau heirdd,—
Ac am un englyn, pwy ei well o'n beirdd ?"

" Yn ngwlad ei enedigaeth aros wnaeth,
Er na chai eglwys rhwng ei bryniau heirdd :
Yn ngwlad y Saeson cedwid ef yn gaeth,
A'i enaid yntau oll yn ngwlad y beirdd :
Ni chelai blwyf o fewn i Walia wen,
Ac yntau'n haeddu meitr am ei ben !"

Y mae yr awdwr yn cyfeirio at y bwriad a fu gan Tegid i fyned gyd ag Esgob Heber, ac at y gân a wnaeth Daniel Ddu ar yr achlysur. Y mae y penillion canlynol yn argraffiadol ac yn effeithiol :—

" Pa hyd, daearol bennau Eglwys Dduw,
Os Duw a'i pia, y gwnewch byth mor ffol ?
Masnachu ydych mewn eneidiau byw,
Heb brisio dwyn afradlon pell yn ol !
Daliwch o hyd at olion cam a thrais,
Pob plwyf, pob meitr, ydych wedi gloi ;

Uwch enaid Cymro chwery udgorn Sais
 Ei sain anhynod—ninnau rhagddo'n ffoi :
 Yr amcan cyntaf ydoedd lladd ein hiaith,
 Ond prysur ladd yr Eglwys wneddyw'r gwaith.

“ Fel hyn gadewid Tegid fawr yn hir,
 A Sais i Sais ofalai am bob lle ;
 Neu rhyw wr mawr o Gymro f'allai'n wir,
 Mewn hugan goch fugeiliai ddefaid ne' !
 Hwyrach na fyddai'n gwybod dim am iaith
 Nac ansawdd Cymro, mwy nag am y nef :
 Rhyw Gurad tlawd er hynny wnelai'r gwaith,—
 Ond am y tâl gofalai ei Vizar ef.
 Blin ydyw nodi pethau gwael fel hyn,
 Ond maent yn ffeithiau cedyrn fel y bryn,
 Yn ffeithiau blinfawr a gadwynant draed
 Pob Cymro doniol o offeiriad braidd :
 Pob uchel swydd sydd dan nawdd uchel waed,
 Ac edrych arni nid oes Cymro faidd !
 Nid diffyg dawn, gan hynny, yn ein bardd
 A'i cadwodd ef mor hir o dir ei wlad,
 Er sefyll yno yn gyhoeddwr hardd
 O athrawiaethau yr efengyl fad ;
 Ond diffyg rhyfedd y gyfundraeth flin,
 A nodda bobpeth ond—cymhwyster dyn !”

“ Byth mwy i dref y Bala ni ddaw'r bardd,
 Lle gwenodd gyntaf ar oleuni clae'r.
 A'i lais cwynfanus drwy y ty a'r ardd
 Ni chlywir yn holi am ei dad a'i chwaer !
 Mae'r Llyn yr un yn trydar ger y dret,
 A rhydd Treweryn rhwng y creigiau lam ;
 Ond mwy, ya unig blin, ni welir ef
 Yn wylo'n llif uwch cadair wag ei fam !
 Maent hwy eill tri yn gorwedd wrth y Llyn,
 Ac yntau'n mhell orwedda'n y man hyn.”

Yr awdwr nesaf y cyfeiriwn ato yw “ Marah,”
 yr hwn, a chymeryd pob peth gyda'u gilydd,
 sydd yn rhagori ar y lleill oll. Y mae yn
 gyflawn yn ei ddarluniadau, yn dlws ac yn
 effeithiol yn ei ymadroddion. Y mae mor
 ragorol mewn iaith, syniadau, a chwaeth fel
 na wyddom yn mha le i ddifynnu o hono. Y

Beirniadaeth Aberystwyth 85

mae yn syml, heb fod yn isel ; yn farddonawl, heb fod yn glogyrnog ; ac yn gyflawn, heb ein blino â hir feithder. Y mae yn gafael yn ei waith fel campwr, ac yn myned drwyddo fel un yn teimlo yr hyn a ddywedai. Nid yw yn ceisio rhoi ar ddeall i ni ei fod ef am wneud gorchest ; ac nid ydyw yn codi ein disgwyl-iadau drwy amlygu dros pa faint o ofod y mae yn meddwl tramwy. Nid ydyw ychwaith yn rhoddi unrhyw ddarlunlen o'i daith. Nid ydyw yn myned dros yr hen restr, sef, fod y coed yn plygu eu pennau, y nentydd yn ochain a'r cymylau yn wylo, oherwydd marwolaeth yr enwogion ; ond y mae yn dweyd,—

"Nid ydyw gogoniant ein gwylltion fynyddoedd,
Ein grisial afonydd, na'n gwyrddion goedwigoedd,
Yn ddigon i symud y baich o ofidiau,
Na swyno i anghof ein trymion drallodau.

"Ni raid i mi anog y cyndyn deimladau,
Na cheisio cynorthwy y gwllth na'r cymylau ;
Maddeua y nefoedd, maddeued y ddaear,
Os gwlychir f'ysgrifell mewn dagrau o alar :
Cysegrwyd gwir dristwch gan Dduw yn ein natur,
Pan wylai y Crewr wrth fedd ei creadur !"

Y mae yr awdwr wedi bod yn fanwl yn yr holl deithi mwyaf angenrheidiol mewn pryddest, ac y mae ganddo ddarluniad cywir i'r byw o'r gwrthddrychau y galara ar eu hol, yn yr iaith mwyaf dilyn ; y mae ganddo arabedd, prydfertwch, a nerth. Ni wyddom am gymaint ag un linell y gallem ddweyd wrth ei phen y buasai yn well mewn rhyw ddull arall, neu mewn rhyw sefyllfa arall. Y mae y gân yn natur drwyddi oll. Y mae yn wir fod "Caswallon" yn rhagorol mewn rhai darnau ar

Morgan Howells a Thegid, ac fod "Galarwr Galarus" wedi ysgrifennu yn dda ar Ieuan Gwynedd a Thegid, ond nid oes un o'r ddau awdwr hyn yn cario eu darluniadau drwodd, gyda'r pedwar, mor brydferth, mor ddillyn, ac mor alluog a "Marah." Y mae efe yn bencampwr yn y gelfyddyd. Y mae darllen ei linellau tarawiadol, effeithiol, a gorffenedig, yn dwyn Alexander Pope i'n meddyliau yn barhaus. Gan fod mor anhawdd difynnu o waith sy mor rhagorol drwyddo oll, maddeu i ni os darllenwn y cyfansoddiad ardderchog hwn o'r pen bwy gilydd.*

CAWRDAF.

AI fu nemawr fawr o'i fwy—i'w weled
 Ar ol dydd Goronwy;
 Ow! mae awdwr y Meudwy
 Wedi mynd—ni cha'i weld mwy.
 Un o'i fath marw ni fydd—yn ei waith
 Cawn ei weld o'r newydd;
 Deil ei waith tra bo'r iaith rydd
 A Gwalia wrth ei gilydd.

* Pryddest Emrys oedd hon

UNIG FERCH R. AB GWILYM DDU.

Tachwedd 3, 1834, yn y ddwyfed flwydd ar bymtheg o'i hoed.

GIN Iôr biau roi bywyd,—a'ch daliodd
 Dan eich dolur aethlyd ;
 Er y boen o fynd o'r byd,
 Hygaraf ferch, i'r gweryd.

Rhyw hynodawl seren ydoedd,—ei gwawr
 Ragorai ar filoedd :
 Dwyrain drwy'r eangderoedd,
 I awyr uwch nag yr oedd.

Cofio ei holl gyfeillach,—a'i bywyd,
 Na bu un o'i decach,
 A ddyrydd, yn ddeiriach,
 Golyn noeth i galon iach.

Drwy boen, hi a adawai'r byd—marwol,
 Yn more ieuentyd ;
 O'i ddu ing, cadd ddiengyd,
 Tan y gwys, o'r tonnau i gyd.

Sain ei thôn, swm ei thannau,—bur eirioes,
 Beroriaeth aml leisiau ;
 Yr holl gerdd a'r allai 'i gwau,
 Ostyngwyd gan drwst angau.

IEUAN GWYNEDD.


I. EI BRIODASGERDD.

IEUAN Fardd o awen fwyn,
 Y pereiddfardd pur addfwyn,
 Gwr enwog a geir inni,
 Yn wir frawd, yn wr o fri;
 Gwr erioed a gâr yr iaith
 Câr ei wlad—nis câr lediaith,
 Duwinwr, gwr rhagorol,
 Roed i ni o rad yn ol;
 Duw fy Ior wnaï 'i adferyd
 O fin bedd i fyw'n y byd;
 A thawel Rahel a roes
 Er rhannu blinder einioes,
 Yn briod syw—ein brawd sydd
 Dan y iau fel dyn newydd.

Hiroes, a Duw i'w harwain,
 I dir hedd deued i'r rhain:
 Drwy'r hynt boed iddynt bob dydd,
 O galon helpu'u gilydd.

Dalied Ieuan hyd elor,
 O du gwaith godidog Ior;
 A thanied dros Frythonwyr,
 Yn ngwlad Saeson, estron wyr.
 Ni wiw dal ar sw'n dyliaid
 Llan y plwy, sy'n llunio plaid;
 Wrth eu swydd sy'n cyfarth ser,
 Am damaid mewn camdymer.
 Gwyr yw'r rhai'n a geir ar werth,—
 Adewir fel llestr diwerth.





ERYRI.

"Yr Aran, yr Eryri,
A si 'u neint, ddengys i ni."

Priodasgerdd Ieuan Gwynedd 89

Dos rhagot, rhagot yn rhydd,
Os daw'n flinderus dywydd;
Nid tawel fyd ond tywydd
I ŵr o farn gywir fydd.
Caled waith, frawd, coelia di,
Er ei les yw arloesi:
I gyrhaeddyd y gwreiddyn
Rhaid cloddio a cheibio chwyn;
Yna caiff hen foncyffion
Efo'r bâl chwalfa i'r bôn;
Gwirionedd rydd ddirgryniad
Heb gledd i ffugiant pob gwlad.
Tery i suddiant orseddau,
Gwna fedd i bob gorsedd gau;
A gwel, cyn y del o'i daith
Babau y byd heb obaith,—
Pabaeth, a Phusiaeth a'i phen
O dani yn y donnen.
E ddofir rhwysg cleddyfau,
Oes hir ni chant i frashau,
Ar flaenau bidogau dur
Ni reda gwaed creadur.
Rhif y gwlyth o eirf glythion
Ar gnawd, gwâr frawd, gywir fron,
A fwrir o'u harferiad
I drin tir, glyndir ein gwlad.
Yr hen haearn, o'r newydd,
Yn ei ol yn drosol drydd:
Ac o'i ffurf troir gwaew ffon
A bwyelli'n ebellion,
Neu bladur gwyneb lydan,
I dorri, medi'r gwellt mân.
A gyrra hyn segurwyr
I geisio gweithio fel gwŷr;

I ennill arian, unwaith,
 Trwy eu hoes am wneud rhyw waith.
 Maent yn awr mewn tyner wedd,
 Ar i fyny'n rhyw fonedd,
 Yn eu hangen, yn hongio,
 Ar y dreth, er's hir, hir dro.
 Ni roir, gan wir arwriaeth,
 Dim i neb ond am a wnaeth ;
 Ni roir aur yn hir lle'r ânt
 I gwnnu gwag ogogiant.

Nid oes ond ar reidusion
 Eisiau eirf yn yr oes hon :
 Tarian i sedd Victoria
 Sydd yn nghalon dynion da.
 Sai ein hardd Frenines ni
 Yn hawdd heb gledd i'w noddi.
 Heddwch yw'r brif egwyddor
 Fwya' o'r un yn Llyfr Ior.
 Rhoddi help i gyrraedd hyn
 A ddylai pawb, a'i ddilyn.

II. EI FARWNAD.

Prudd-der heb sŵn pereidd-dant—geir o hyd,
 Dagrau hallt a lifant—
 Drwy wan iechyd, drwy nychiant,—i'r
 dwfn fedd
 Ai Ieuan Gwynedd yn ei ogoniant.
 I Ieuan rhoe'r Awen rydd—ei llawryf,
 Llwy'r wisgai 'i arleisydd ;
 Ei fawr ddawn, fore ei ddydd,
 Er ei glod, synnai'r gwledydd.

Marwnad Ieuan Gwynedd 91

- Ei wlad, ei genedl, a'i iaith,—a garai
Y gwron yn berffaith;
Gwell co' am dano a'i daith—fydd gweith-
iau
Ei Awen a'i eiriau na mynorwaith.
- Fe wir gloes y "Llyfrau gleision,"—a'i law
Dileodd holl olion
Y brathiad,—y brathiad bron
I grefydd a'n gwryfon.
- Un ewyllysgar mewn llesgedd—oedd ef
I ddal o du rhinwedd;
Arferai, mewn gwir fawredd,
Ei law a'i bin, ar ael bedd.
- Nid mewn niwl, ond manylwaith—rhagorai'r
Gwron yn y ddwyiaith;
Drwy oleuni, darlunwaith,
Natur oedd yn fyw trwy 'i waith.
- Pwy esyd allan y pwysi,—rhosyn,
Yn ngwres haul a'r lili;
Gwlith mân, dwfr syfrdan a'i si—fel Ieuan?
Anian ei hunan rydd Ieuan inni.
- Y creigydd gwyllt yn crogi—ar warr cwm,
Rhaeadrau'r certh lethri,
Yr Aran, yr Eryri,
A si'u neint, ddengys i ni.
- Y daran yn ymdorri,—y gwlaw mawr,
Goleu mellt yn fforchi,
Dialgar frad y weilgi,
Yn ei lawn nerth welwn ni.
- Dagrau ar ruddiau gwir weddwon—a chwyn
Ochenaid y caethion,

A'r gweiniaid a'u mawr gwynion—mewn
 lludded,
 Fu, wrth eu gweled, yn frath i'w galon.
 Ei Dduw, ei wlad, a'i ddiwedd—ennillai
 Yn hollol ei duedd ;
 A chan boen ar erchwyn bedd,
 Yn wastad y bu'n eistedd.
 Nychdod, cyn dyfod i'w dw',—a ddaliodd
 Y meddyliwr gloew,
 Er hyn ei fri a'i enw—fydd ar led,
 Hyd ei ymwarded o dŷ y meirw.

ROBERT AB GWILYM DDU.

BE chwiliem heb ochelu,—am ein hoes,
 Nis mwynhaem trwy Gymru,
 Un llonnach i'n llawenu,
 A'i beraidd dant na'r Bardd Du.
 Cywreindeg wiwdeg awdur—yn naddu
 Cynganeddion eglur,
 Heb drwy 'i gathlau, perlau pur,
 Un iota heb ddawn natur.

YR ADERYN SYMUDOL.

ADERYN hoff, diniwaid yma ddaeth,
 O wlad yr ia, i geisio nawdd a maeth.
 Ei wlad ei hun sy gallestr iddo ef,
 Dan orchudd trwm o ia yn grawen gref.
 Disgwylia fod gwlad Prydain yn wlad rydd ;
 Pan dery'i droed ar hon mai rhydd a fydd ;
 I gael mwynhau pob gwig, pob cors, pob llyn,
 Heb haenau tew o rew, neu eira gwyn.
 Deisyfu dim o gynnyrch neb ni wna,
 Boddlon a 'i hun yn rhywfan na bo ia ;
 Hyd lynnoedd pell o olwg pob rhyw ddyn,
 Neu gorsydd dwfn, difyrfa ef ei hun.

Ond yn lle hyn ei erlid ga'n mhob man,
 Gan gludwyr dryll—pob math mewn tref a
 llan ;

Gwna pawb yn hyf ar y dieithryn hwn,
 Wyr ragor rhwng y bigfforch hir a'r gwn.
 A'r crefftwr main i geisio'i saethu ef,
 Os metha'i nod dyrchafa'n groch ei lef,
 Er fod y gwr am drin ei arfau 'n well,
 Anela'i ddryll, ond mynych mae'n rhy bell.
 A mab y ffarm sydd yn orchestol iawn
 Hyd dir ei dad yn cario'i ddryll yn llawn,
 Heblaw y llu o goeg segurwyr tre'
 Ar ddyddiau gwyl a'i helant yn mhob lle.

Lofruddion hyll, paham cydunwch chwi
 I ladd y gwan ddaeth am ein nodded ni ?
 Dieithryn yw sy'n mhell o dir ei wlad,
 Heb nabod neb, heb ganddo fam na thad.
 Rhowch iddo nawdd, ar dywydd blin fel hyn ;
 Ni fydd yn hir heb adael cors a llyn,

Gael iddo ddweud, 'nol iddo fynd i'w wlad,
 Mai yma bu drwy gael eich caniatad.
 Fe ddichon fod cymhars hwn ar ol,
 Mewn hiraeth llawn—rhowch iddo fryn a dól.
 Trueni fydd ei ladd mewn estron wlad ;
 Rhowch heibio'r dryll, a cheisiwch well
 mwynhad,

Nag wrth weld gwaed creadur bach mor fwrn,
 Sydd wedi dod i'ch gwlad i ddweyd ei gwyrn.
 A thithau'r dyn yn gyflogedig sydd
 I ladd drwy hawl heb ddeigrn ar dy rudd,
 A oes dim modd rhoi teimlad dan dy fron,
 A'th droi at waith yn lle'r gyflafan hon ?
 I'r bonedd wyr, nid gwaith boneddig yw.
 Fod llaid a gwaed hyd wisgoedd y fath ryw.
 Hwylent fod uwchlaw'r fath chware plant
 A throedio cors a mynd drwy fryn a phant,
 Am ddyddiau hir, bob blwyddyn gyda'r wawr ;
 Nid hardd yw'r gwaith i rai fyn fod yn fawr.
 Edrychent ar gigyddio ieir neu foch
 Yn warth i wyr o fri, o waed mor goch ;
 Faint well yw lladd aderyn a phig hir,
 Na lladd y da, neu'r ieir sydd ar y tir ?
 Ac wedi lladd, nid ydyw'r budd ddim gwerth
 Y ganfed ran o'r draul ar aur a nerth.
 Ceir gweled dryll gan hogiach mân di farf,
 S'n chwydd i gyd wrth drin yr enbyd arf.
 Meddyliant fod arwyddion o wr mawr
 Mewn cario dryll, er dychryn rhai ar lawr.

Os ydyw lladd yr anifeiliaid mwyn
 Ar fryn a dol, neu'r adar ar frig llwyn,
 Yn waith nad oes un arch yn neddfau'r Nef
 Yn ei wahardd, nac yn ei feio ef,

Ni ddylid gwneud y peth mewn bost neu fâr,
I foddio nwyd dynionach hanner gwâr ;
Na'i fod yn rhan o ŵyl ynfydion hyll,
Sy'n treio'u llaw wrth ddysgu trin y dryll :
Mae'r grechwen fawr, a'r fonllef greulon, iach,
A roir wrth weld distrywio'r adar bach,
A'r plu ar chwal yn hedeg gyda'r gwynt,
Yn profi pa'm cymerwyd y fath hynt.
Nid lles yw'r pwynt y cyrchir ato ef,
Ond rhoi boddhad y mae i'r duedd gref
At waed a lladd sy mewn rhan fawr o'n rhyw
Un naws a bâr yr Indiaid gwelltion yw.
Nid boddio'i nwyd, ond torri'i gwanc mae'r
arth,
A'r llew wrth ladd nid yw yn mynd dan warth
Sy'n toi y dyn sy'n llarpio gwaith ei Dduw,
O ran mwynhad, pan allai'u godde'n fyw.



GOMER A IEUAN DDU

Awdl er coffadwriaeth am y diweddar Barch. Joseph Harris (Gomer), Golygydd cysefin *Seren Gomer*, ac am Ieuan Ddu o Lantawy, ei fab.

AM Harris y mae hiraeth,—Ow ! ei roi
Yn rhych llygredigaeth ;
Athraw ein hoes, lithro wnaeth
O'r golwg i argeliaeth.

Ow, gladdu un fu'n ei fywyd—hybarch
Heibio i fyrdd, mae'n dristyd :
A !—ti'r bedd, bwytawr y byd,
Aeth a Harris i'th weryd.


Mae'n gorffwys yn y gwys gaeth,
Ar wely trwm marwolaeth ;
Trig yn ei unig annedd,
Wedi oer newid ei wedd.

Ei law anwyl, a luniodd—y puraf
Gampwri, a fferodd ;
Angau traws trwy ing a'i trodd
Yma i lawr—fe'i maluriodd.

Chwalai binacl uchelwych,
Chwalai un oedd uwchlaw nych ;
Yn ei flodau gorau i gyd,
Y gyrrai hwn i'r gweryd,
Cyn henaint ac anhunedd
I hacru, neu waelu'i wedd.

E fwriwyd y " saeth farwol "—ar unwaith,
I'w rannau bywydol ;
Yntau, pan droes y fantol,
Heb un nerth, i hybu'n ol.





PORTH CASTELL BEAUMARIS.
Gair mawr a haeddai gwyr Môn—ereswiw,
A Syr Risiart dirion.

Angau ei fab a'i ing fu—yn achos

O'i nych ef nes trengu ;
A ! beunydd heb wahanu,
Un oedd ef ag Ieuan Ddu.

Harris fawr ! hiroes a fydd
I dy waith, y da ieithydd.

Hir erys i'n gororwyrion,—tra Môr,
Tra trem haul ar Frython ;
Tra iaith, a chlod tafod hon,
Dy enw fawrha dynion.

Yr Omeriaith er ei mawredd,—a'i bri
Boreuol a'i thlysedd,
Oedd agos, gan eiddigedd
Rhyw rai beilch, a llithro i'r bedd.

Dan draed, yn dlawd iawn ei drych,
Cwynfanai, acw'n fynych ;
A neb ond yn anniben,
I'w choffâu, a dyrchu'i phen
Yr awen fu'n brin o faeth ;
Llai nawdd a gai'n llenyddiaeth.

Egin beirdd, rai gwan eu byd,
Yn waelion ac yn wywlyd ;
A yr hen feirdd mewn rhan fawr,
Yn salw mewn iselwawr ;
Iolo* fawr, ar ael ei fedd,
A Ionawr,† mewn dihinedd ;
Gwallter,‡ a'n rhydd Ddafydd Ddu§
Heb wyneb i awenu ;

* Iolo Morganwg. † Dafydd Ionawr.
‡ Gwallter Mechain. § Dafydd Ddu Eryri.

Gutyn,* a Nantglyn,† r'un wedd,
 Rhobert,‡ a'i ddiarhebedd,
 Puw,§ Myfyr || frodyr o fri,
 Ni wyddent gaent eu noddî :

Y rhai'n oedd wyr rhinweddol,—ac ereill
 Yn caru'r iaith lwysol ;
 A cheisient, drwy'u parch oesol
 Ei chodi i ni yn ol.

Ond bychan, fychan a fu—y noddedd
 Gan foneddion Cymru ;
 Yn noeth a gwael, bu'n hiaith gu,
 Trwy angeu, yn min trengu.

Yr hudolus, bêr delyn—a hoeliwyd
 Ar helyg y dyfrllyn ;
 Eu dagrau hallt, hallt am hyn
 Ddysdylliai'n beirdd, weis dillyn.

Hir aeaf ar yr Awen,—a duwch
 Yn dew dros ei gwybren ;
 Ni welid dim gan niwlen ;
 Mal hir nos, cymylai'r nen.

Pan ydoedd ein pen awdwyr,
 A'n dewraf enwocaf wyr,
 Bron, bron a digalonni
 O herwydd ei haflydd hi,
 A'i gâlon yn llon, yn llu
 Calonnog yn cilwenu ;
 Ac ar byynt agor ei bedd
 I'w deol yno o'r diwedd ;

* Gutyn Peris. † Robert Ddu o Nantglyn.
 ‡ R. ab Gwilym Ddu o Eifion.
 § W. O. Puw. || Owen Myfyr.

Wele'r Seren* wen drwy wi!
 O geudod niwl ar godi;
 Trwy ei wyll, torrai allan,
 A'r niwl oer wasgarai'n lân:
 Ernes a roes o ddiwrnod,
 Mawr ei ddawn ar Gymru i ddod.

Rhoes adgyfodiad i fad ddefodau †
 Y Dywysogaeth, ei dewis seigiau;
 Ac hi a ddygodd ddeg deg o ddegau
 O feirddion, o argelion i'r goleu;
 A thynodd ddiffwrwyth ddoniau—hen feirddion
 Oedd wyneb lwydion, i ail ddwyn blodau!

Gwnaeth ddarllenwyr, cyfansoddwyr,
 Bâr yn awdwyr, a beirniadon;
 Dwnedyddwyr, cywrain rifwyr,
 Wych anturwyr, a chantorion.

Allan y daeth llu'n ei dydd,—o liwdeg
 Oleuadau newydd;

Arweiniai drwy'r wybrenydd,
 Draw y rhai'n, a'i phelydr rhydd.

Haul ydoedd i'r Goleuadau, †—a'i gwres
 Bywiog a roddes i bob graddau:

* Yr oedd y dyddiau cyn dyfodiad y *Seren* yn rhai o'r dyddiau tywyllaf ar lenoriaeth Gymreig a welwyd erioed; nid oedd ond ambell ddiwinydd yn y Dywysogaeth a allai ysgrifennu Cymraeg yn gywir.

† Megis yr Eisteddfodau a'r Cymdeithasau Cymreigyddol.

‡ Ar ol codiad *Y Seren* yr ymddanghosodd *Goleuad Cymru*, *Y Dysgedydd*, *Y Gwyliedydd*, *Y Cymro*, *Y Brud a'r Sylwedd*, *Lleuad yr Oes*, *Greal y Bedyddwyr*, *Yr Efynglydd*, *Y Sylwedydd*, *Tywysog Cymru*, *Y Seren Ogleddol*, *Y Papur Newydd Cymraeg*, *Y Gwladgarwr*, *Cronicl yr Oes*, *Y Diwygiwr*, *Y Brytwn*, *Yr Haul*, &c., &c. A'r *Seren*, am flynnyddau, yn enwedig yn nyddiau Mr. Harris, oedd y prif oleuad; canys y pryd hwnnw fe'i derbynid yn fwy cyffredinol gan rai o bob enwadau crefyddol.

Grym ei phelydr hyd yn hau—llewyrchiad,
Neu ddylanwad i'w holl ddalenau.

Unbenes anibynawl
Ydoedd hi, yn gweini gwawl ;
Yn ei chylch, trogylch, mewn trefn,
Heb unrhyw wib o annhrefn.

Ei phelydrau'n tafu golau
I aneddau tra mynyddig ;
Gwaelodion nentydd gwledig,—a chymoedd
Yn niwl ydoedd, wnae'n oleuedig ;
Cododd ddynion dysgedig—hyd lethrau
Aelïau y bryniau, lwybrau unig.

Troai ein bythod tra anobeithiawl,
Diau, yn neuaddau diwinyddawl ;
Hi fu'n tywysu yr anfanteisiawl
I lwybrau y gwybodaethau dethawl ;
Hi daenai'n gyffredinawl,—yn eu mysg,
Ei thirion addysg gwir athronyddawl.

Y llafurwr, gweithiwr, gwan,
Yr hen wr prin ei arian,
Arweddai hon, hwyr ei ddydd,
Yn enwog fel anianydd.
Brodoriaid Aberdaron,
A thalaeth Malldraeth yn Môn

Oeddynt wedi cyrhaeddyd—hanesion
Teyrnasoedd yr hollfyd ;
Rhyfel, a'r blinder hefyd
Oedd ar bawb o seddau'r byd.

Hyd y rhosydd, tu allan i'r drysau,
A'r llwybrau creigiog, glogyrnog gernaau,
Gan ryw weithwyr ceid pigion areithiau,
Gwersi newyddion, gwyr y seneddau ;

Hwy adroddent hyd wreiddiau—llywod-ddysg
Er mwyn addysg nes tanio'r mynyddau!

Diwygiodd weinidogion—yn eu hiaith,

Yn eu hyll arferion;

Deffro'r byd, hefyd, wnae hon,
I gwnnu'r Gymraeg union.

Gyrrodd o lawer gorawr,
Y rhyfedd gymysgedd mawr;
Mynnai mewn bryn a maenol,
Yr hen iaith i'w bri yn ol.

Rhoi fyw mewn Athrofawyr,—enynnai

Ein henwog fyfyrwyr;

Ee ddygodd hon estron wyr,
Heb lediaith iddi'n bleidwyr.

A thywysodd yr holl Gymdeithasau*

Er rhoi nodded i'r iaith a'i rhinweddau;

Y rhai'n a fagent, hwy godent gadau

O areithwyr i drin naturiaethau;

Rhai o feddianwyr prif doniau—ein dydd,

Hwynt, drwy eu gilydd, ddygent i'r golau.

Iddynt hwy y rhoddent waith,

Gan annog bechgyn uniaith,

I loewi'r fywiol Awen

Hyd gopa y Wyddfa wen.

Torrodd allan dân doniau,—ar unwaith,

Drwy Wynedd a Deau;

Egin awdwyr, yn gnydau,

Miwail o hyd yn amlhau.

* Y *Seren* oedd y prif gymhellai i godi y Cymdeithasau Cymreigyddol, a'r cymdeithasau hyn oeddynt yn nodded fawr i awdwyr ieuaic.

Hi roddes gyfarwyddyd ;
Yn Athen bert gwnaeth ein byd !

Aml un drwsiwyd o ymyl ein drysau,
O rai na adwaenid prin eu doniau,
A'r rhei'ny ydynt yn addurniadau,
A phrif awdwr ran dawn a phrofiadau ;
Mewn oed, pe nawdd i'w mwynhau,—ni
chawsent,

Ys, hwy ymroisent, nes marw o eisiau.

Harris enwog, mae'n resynol,—it' fynd
I'r distaw fedd marwol,
I orwedd mor gynarol,—a thithau
Yn wr o ddoniau mor haeddiannol.

Er lludded caled, er cur,—ni welaist,
Prin ol dy fawr lafur,
Deuodd rhew, duodd yr hin,
Frig iesin dy fawr gysur.

Diwinydd na adwaenir
Un o'i well oedd e'n wir ;
Enwog wr, i drin ei gail,
Un o'i ail mwy ni welir.

Da oedd cael byw, syw was Iôn,
Yn nghyrraedd ei gynghorion,
Deall craff, seraff, a sant,
Ddawn Naf, oedd yn ei feddiant.

Y gwirionedd a agorai i weinion,
Mwnai a golud mynnai o'i galon ;
I'r annuwiawl anogawl gynygion,
Gyhoeddai'n daeraidd, gwahoddai'n dirion ;
Wrth ei weld yn nerth ei Iôn—pan draethai
Amryw a welai, crynai marwolion.

Ei araeth oedd ddyferion—aml a glân,
 Mal gwllith i dduwionion ;
 E giliai ofnau'r galon,
 Wrth ei waith yn traethu hon.

Galarus yw gwylwyr Sion—o'i ol ;
 Wylant ddagrau heilltion ;
 A gloes hir i eglwys Iôn,
 Ei fwrw ef at feirwon.

Oedd heb ei ail, yn ei ddydd byr,
 Yn frawd a chefn i'w frodyr ;
 Nid hir fuasai teiroes,
 Idd y fath un, yn un oes.

Athronydd, ieithwr o anian—ydoedd,
 Ni wedir yn unman ;
 Ei ddawn dêr oedd yn darian
 A mawr glod i'r Gymraeg lân.

Mor rwysawl, mewn ymryson,—tra anhawdd,
 Y trinau ddadleuon ;
 Twyllhaeriad, a brad ger bron,—a rwygai,
 O herwydd gwelai i wraidd ei galon.

Yn ei oes eiste a wnaeth,—wr gwiwdeg,
 Ar gadair llenoriaeth ;
 A'n pigion ddynion a ddaeth,
 I'w garu am ragoriaeth,

Awdwyr teilwng y pedair talaeth,
 Llawen yrrent ffrwyth eu llenoriaeth
 Hynota' i Harris yn un toraeth ;
 A'n beirddion henion heb wahaniaeth.
 Yn ei ddydd i'r Seren ddaeth,—mewn llondeb
 I urddo'i hwyneb â'u barddoniaeth.

Drwy 'i draethodau campus yntau,
 Y mae doniau trwm, dewinawl;
 Hwyl roddant brawf gwiredawl—o gyneddf
 Llym ei ddileddf allu meddylawl.

Chwiliai waelodion, chwalai oludoedd,
 Cudd-fannau dyrus Locke a'i ddyfnderoedd;
 Tramwy'r wybren ar aden yr ydoedd,
 Yn llaw Syr Isaac, fu'n lleshau'r oesoedd,
 E ddeallai am ddulloedd,—a chylchau
 Y mawr beirianau'n mro y wybrenoedd.

Ai fewn i goluddion dwfn fwngloddiau
 Howe a Gil odiaeth, deg oleuadau,
 A Fuler anwyl, a Phool aur enau,
 A Henry deilwng, lluniwr y diliau,
 Owen fawledig, Hall a'i lyfn flodau,
 Ac Edwards nerthol, wrol si ciriau,
 Efo rhydd anian, gallai 'i fawr ddoniau,
 Fynd i waered i blymio'u dyfnderau;
 A nodol amcaniadau—holl lafur,
 Y tirion awdur oedd troi eneidiau :—
 O ryswch, dwyn i'r oesau,—yn gyson,
 Fannau dirgelion trefn Duw i'r golau.

O du rhyddid ymadroddai
 Yn nerthol, yn wrol, blaenorai,
 Ergydiai bob rhyw gadwen.

Aml y gwelwyd e'n teimlo o'i galon,
 Wr cyweithas, dros Ryddid i'r caethion,
 Carai esmwytho eu croesau meithion,
 A gwared tywyll Negroaid duon,
 Y rhai a faeddid mewn amryw foddion,
 Gan wyr mileinig, hanner melynion;

Ewropiaid, hagraid egron,—fasnachent,
 Ac a gydhonnet gig a gwaed dynion;
 Sigaw trais euogion—y gribddeiliaeth,
 Dileu'u llywodraeth a dal y lladron.

Carai i bob cwr y byd
 Wreiddio mewn hedd a rhyddid,
 Heb flinder, nac offeryn
 I ddwyn gwarth ar ddu na gwyn;
 Pob creulonder, trawster trwm
 Gwarthrudd hen ieuau gorthrwm,
 A gormesiaeth grymusion—fu'n hoffi
 Dur, a chadwyni i drechu dynion,
 Yn hybwyll a wrth'nebodd,
 Yn mhob man, ac yn mhob modd.

Ei egni ydoedd o du'r Genhadaeth,
 A gyrru diwygwyr, drwy'r gre'digaeth,
 Gyda glân darian yr iechydwriaeth,
 I luon o ddalwyr eilunaddoliaeth;
 I ddeol pob gau-dduwiaeth—oddiar
 Wyneb y ddaear a rhaib Iddewiaeth;
 Tynnu Mahometaniaeth—yn ddrylliau,
 A darnio delwau cedyrn hudoliaeth;
 Baeddu twyll Pabyddiaeth,—dim gorffwys
 heb
 Rwbio o'i gwyneb ol pwr baganiaeth.

Carai anfon dros y crwnfyd,
 I rai beius air y bywyd,
 I'w hadferyd o feirw.

Chwythu'r fflam ddwyfol, ysol yn Asia,
 Nes b'ai 'i heirias yn tanio Siberia,
 Gwareiddio, a chynnyg garddu China;
 Dychwel ardaloedd tiroedd Tartaria;

Yspeilwyr rheibus, epil Arabia,
 Horeb, Senir, a thir Abbysinia ;
 Anfon cynhygiad, o gariad gora,
 Eto i dywyll gynblant Iudea ;
 Rhoi mwy o lewyrch, ar Hymalayia ;
 Goleu i feirwon ffoi i Galfaria ;
 A chael wi ! lawen iach haleluia,
 O begwn i begwn, sw'n hosanna,
 Am waed a lwyr gymoda—ddu elyn ;
 Yr hen bentewyn, f'ai'n dewyn dua' !

Hynny oedd ei amcan ef,—hynodol
 Weinidog Duw'r tangnef ;
 Uchel iawn y dyrchai lef,
 Ar ran y byd i'r wiwnef.

Pan oedd fwyaf cyhoeddus,—ran ei ddysg,
 O ran ei ddawn fedrus,
 Yn uchel, ac yn iachus,—mewn elwch,
 A thawelwch yn eitha' hwylus,

A Rhagluniaeth helaeth Iôn,
 Ar y gwr, yn rhoi ei gwen ;
 Ei deulu'n gylch, glwysgylch, glân,
 Ger ei law, ragorol un,

Dim arwydd o wlad y meirwon—i'w gweld
 Nac och ar ei galon ;
 Neb yn llesg, wynebau'n llon,—pob hoen-
 edd,
 A sirioledd is awyr wiwlon,—

Dyna'r pryd troe'i hyfryd haf
 Yn afrywiog, fawr aeaf,
 Balch iawn o ddawn Ieuan Ddu
 Oedd y gwr ;—haeddai 'i garu ;

Gomer a Ieuan Ddu 107

Yn ddeheulaw iddaw oedd ;
A llygad ei dad ydoedd.

Eginyn ffrwythai'n gynnar,—anamyl
Mae nemawr o'i gymar ;
Pêr, olygus imp rhy liwgar,—a glân
Ydoedd Ieuan i dud y ddaear.

Mawr oedd ef yn more'i ddydd,
Henadur fel toniedydd ;

Mydrwr, manylwr, mewn iaith,
Mawrygwr y Gymreigiaith ;
Holl hoffter Gomer i gyd,
O'i febyd, a'i brif obaith.

Ail i dw' y blodeuyn—y gwawriodd ;
Agorai mal rhosyn ;
Chwa farwol ar ol hyn,—a ddaeth heibio,
Nes ei wywo'n ail i lysieuyn.

Haul ei oes a aeth i lawr—yn barod,
Ben bore'i fyr dymawr ;
Crinodd, newidiodd ei wawr,
Yn ei Wanwyn, mewn unawr.

Tywyll aeth Abertawe
I gyd oll o'i blegid e'.

Yno i wgu ar enwogion,—ys, daeth
Ystorm angau digllon ;
A dulid ei awelon,
Chwibanai hwnt uwch ben hon.

Elyn hyll, gafael a wnaeth
Yn mrigau y Gymreigiaeth ;
Dwrn roes ar gedyrn yr iaith,
A'r Awenydd ar unwaith.

Iwan ac Ieuan, deg wedd,—a Harris,
 A yrrwyd i'r dyfnfedd,
 Y dewrion yn cydorwedd,
 Yn eu rhan bach o'r un bedd !

Distaw huno maent, heb gyffro,
 Yn llwyr yno oll, ar unwaith ;
 Dim cyfeillach rhyngddynt mwyach,
 Na chyfrinach efo'r heniaith.

O, wele ! 'nawr, mor wywlyd,
 Yn y bedd yw pigion byd ;
 Och, och ! o'u genau ni chair,
 Yr un gair, yn y gweryd :
 Eithr y lwys athrylithr lân,
 Oll, oll a dreuliwyd allan ;
 O'i chalon, drwy orchwyledd,
 Awen bur enenia'u bedd.—
 Troi draw a gadaw y gwyr,
 Yma raid, Ow, fy mrodyr !
 Trwm iawn yw tramwy unwaith,
 Heibio'ch bedd, diwedd y daith ;
 Mae ynnof, er y meini,
 Fawr chwant gael eich cyfarch chwi ;
 Ond ni wn, wedyn, y iaith,
 A ddeallwch, na'r ddulliaith :
 Dieithr, dieithr neillduedd
 Eto i bawb yw ty y bedd ;
 Y tri wr, mor ddistaw'r ych,
 Mae'n rhaid mai huno'r ydych.

I ba le'r aeth parabl rhydd,—y doniau
 A danient y gwledydd ?
 Y llawn ddistawrwydd llonydd,
 Mwya' is ser yma sydd.

Dir, wedi mado'r ydych,
 Yn llwyr iawn i'r man lle'r ych ;
 Ni yrasoch, mae'n resyn,
 Air i neb, o'r graean hyn ;
 Dinod, anhyfryd annedd
 I'r byw ei chofio yw'r bedd !
 Pridd oer ! mae golwg pruddhau
 Ar ddillad y priddellau :
 Dwfn borth tywyll, erchyll yw,
 Arswydus, Harris, ydyw !

Ond daw bore eto bwrir—ymaith
 Rwymau'r angau dyhir ;
 Y marwol byrth gymerir—ar uchel
 Alwad yr angel, o'i law dringir.

A daw Harris o'r dyfnderau,—a'i fab
 O'i fedd heb wendidau ;
 Yna ant, ac Iwan yntau—i rydd
 Ardal lonydd yr aur delynu.

Ac una corff ac enaid,—yn gynnes,
 Yn y gân fendigaid ;
 Gan leisio, pyncio heb baid,
 A chanu heb ochenaid.

A chewch o hyd danlyd wau
 Dinam seraffaidd donau,
 Yn Nghaersalem am lem loes
 Y groes, heb lýfr na grisiau * :

Yma, yn awr, hoffem ni—wir Hendyl,
 Wrando'ch cerdd yn odli ;
 A chael cip-drem arno'ch chwi—a'ch cyd-gan
 Wiw, ar y lan mewn pur oleuni.

* Grisiau Cerdd Arwest Ieuan Ddu.

Ai nid hoff fa'i genyt ti,—y gorchwyl.
Harris anwyl, o roi gwers ini,

Yn nirgelion Iôn, a'i waith
Yn y felus nefoliaith !
A chynllun o'ch awenllef,
A firaeth feirniadaeth y Nef ;
Blodau'r rhyfeddodau ddaeth
I'th olwg yn ei thalaeth ;
Pa olwg, pwy a weli,
Yn y llys, wrth d' ystlys di ?

Rho hefyd, ddrych o'r rhyfedd—enwogion
Sy'n agos i'r orsedd ;
Rho hanes, gwerth, a rhinwedd
Y lân orfoleddus wledd.

A'r eres ddull sy'r awrhon—ar y Gwr
Agorodd y ffynnon ;
A weli ol yr hoelion
Yn nwy law dy anwyl Ion ?

Y Ddeilen Ddiweddaf 111

Y DDEILEN DDIWEDDAF.

DYWED ple mac'th hen gymdeithion,
Nid oes heddyw un yn fyw;
Golwg wael sydd arnat tithau,
Wedi newid mae dy liw;
Mae dy ruddiau wedi gwywo,
Yr wyt drwot oll yn grin;
Syrthio wnei, a syrthio 'n ebrwydd,
Dan chwa farwol gaeaf blin.

Cydchwareaist, yn yr awel,
Gyda rhai o'th flaen a aeth;
Yfaist wllth a gwres yr heulwen,
Gwyrdd a fuost yn llawn maeth;
Ofer heddyw i'r haul godi
Er gweinyddu dim i ti,
Nid all gwllth na gwllaw'th adferu,
Na dy ddwyn yn ol i ni.

Gwelaist ereill gadd gydgychwyn
Yn mynd oll o un i un,
Tithau'n hongian ar y gangen
Yna ar dy ben dy hun;
Mae'n llawn bryd i tithau gychwyn
Er gwneud lle i'r rhai a ddaw,
Gwanwyn eto byth ni weli
Er fod hwnnw bron gerllaw.

Ni fydd son am danat tithau,
Mwy na'r dail aeth gyda'r gwynt.
Dy le'n ddistaw a gymeri
Yn y briddell megis cynt;
Gelli fod yn gymorth bychan
I wyrddlesni'r rhai a ddél;

Pa athronydd all dy nabad ?
Pa fferyllydd byth a'th wêl ?
Oni welwn beth yw einioes
Os edrychwn ar y dail ?
Nid oes inni hir flynyddau,
Ar y ddaear mae ein sail ;
Nid yw dynion oll ar unwaith
Yn mynd byth i dŷ y bedd ;
Er hyn marw wna'r rhai hynaf,
Trecha angau'r iacha u gwedd.



CYFRES Y FİL.

Y mae y cyfrolau canlynol wedi eu cyhoeddi:

Cyfrol 1901.

DAFYDD AP GWILYM
(pob cyfrol wedi mynd).

Cyfrolau 1902.

GORONWY OWEN. Cyf. I.
GORONWY OWEN. Cyf. II.
CEIRIOG
(pob cyfrol wedi mynd).
HUW MORUS.

Cyfrolau 1903.

BEIRDDI Y BERWYN.
AP VYCHAN.
ISLWYN.

Cyfrolau 1904.

OWEN GRUFFYDD.
ROBERT OWEN.
EDWARD MORUS.

Cyfrolau 1905.

JOHN THOMAS.
GLAN Y GORS.
GWILYM MARLES.
ANN GRIFFITHS.

Cyfrolau 1906.

EBEN FARDD.
SAMUEL ROBERTS (S.R.).
DEWI WYN.

Cyfrol 1907.

JOSHUA THOMAS.

Yn unffurf.

GEIRIADUR CYMRAEG.

Cyfrolau 1908.

IEUAN GLAN GEIRIONYDD
FICER PRICHARD.

Cyfrolau 1909.

ALUN.
TWM O'R NANT. Cyf. I.

Cyfrolau 1910.

TWM O'R NANT. Cyf. II.
YR HWIAN GERDDI.

Cyfrolau 1911.

GWILYM HIRAETHOG.
BEIRDD Y BALA.

Cyfrolau 1912.

Y DIARHEBION. Cyf. I.
EDWARD RICHARD A
IEUAN BRYDYDD HIR.

Cyfrolau 1913.

CALEDFRYN.

Ereill i ddilyn.

Pris 1/6 yr un; 1/12 i danysgrifwyr.

I'w cael oddiwrth R. E. Jones a'i Frodyr, Conwy.

Antoner enwau tanysgrifwyr i O. M. Edwards, Llanuwchllyn, neu
i R. E. Jones a'i Frodyr, Conwy. Gellir cael yr olgyfrolau, neu
ddechreu gyda'r gyfrol hon.

